# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Tachwedd 2024

Amser: 10.25

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

(10.10-10.25)

## Cyfarfod cyhoeddus

(10.25-14.05)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.25)

## 2 Papurau i'w nodi

(10.25)

### 2.1 Rheoliadau Fframwaith Windsor (Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol) 2024

(Tudalennau 1 - 2)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 11 Hydref 2024

**2.2 Cydsyniad deddfwriaethol: Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg**

(Tudalen 3)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio – 15 Hydref 2024

**2.3 P-06-1403 Ailystyried Toriadau i Gyllid Ôl-raddedig a Chynyddu Benthyciadau Doethuriaeth i Gyfateb ag Ariantal Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI)**

(Tudalennau 4 – 5)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at gadeiryddion y pwyllgorau – 16 Hydref 2024

**2.4 Y Diwydiant Twristiaeth – Cais am y wybodaeth ddiweddaraf**

(Tudalennau 6 – 7)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio – 21 Hydref 2024

**2.5 Gweithrediadau a Chyflawniadau Hybu Cig Cymru**

(Tudalennau 8 – 13)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth Hybu Cig Cymru – 21 Hydref 2024

**2.6 Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd**

(Tudalennau 14 - 19)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 21 Hydref 2024

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at randdeiliaid - 22 Hydref 2024

Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 6 Tachwedd 2024

**2.7 Iechyd a lles anifeiliaid - Y defnydd o gawelli ar gyfer ffesantod a phetris gan y diwydiant saethu yng Nghymru**

(Tudalennau 20 - 21)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at bartneriaid Aim to Sustain - 22 Hydref 2024

**2.8 Ymweliad cyd-bwyllgor y Senedd ag Iwerddon**

(Tudalennau 22 - 29)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Bennaeth Swyddfa Llywodraeth Cymru - Dulyn - 22 Hydref 2024

Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Gadeirydd y Pwyllgor ar Dwristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau, Tŷ'r Oireachtas - 22 Hydref 2024

Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol at Gyngor Celfyddydau Iwerddon - 22 Hydref 2024

Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at y Cathaoirleach - 24 Hydref 2024

**2.9 Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26**

(Tudalennau 30 - 45)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 28 Hydref 2024

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 28 Hydref 2024

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol - 28 Hydref 2024

**2.10 Rheoliadau Symud Nwyddau (Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr) (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Darpariaeth Ddarfodol a Diwygiadau Amrywiol) 2024**

(Tudalen 46)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 29 Hydref 2024

**2.11 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 47 - 48)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 31 Hydref 2024

**2.12 Terfynau amser adrodd ar gyfer memoranda cydsyniad deddfwriaethol**

(Tudalennau 49 - 50)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes - 1 Tachwedd 2024

**2.13 P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru**

(Tudalennau 51 - 52)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - 4 Tachwedd 2024

**2.14 Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) (Rhif 2) 2024**

(Tudalen 53)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 5 Tachwedd 2024

**2.15 Ymgysylltiad Rhyngseneddol**

(Tudalen 54)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Tŷ'r Cyffredin - 6 Tachwedd 2024 [Saesneg yn unig]

**2.16 Grwp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

(Tudalen 55)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 7 Tachwedd 2024

## 3 Yr Economi Sylfaenol: Panel 5

(10.25-11.25) (Tudalennau 56 - 79)

Sarah Simmonds, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Ali Abdi, Rheolwr Partneriaethau Porth Cymunedol, Ysgol Pensaernïaeth, Prifysgol Caerdydd

Dogfennau atodol:
Papur briffio Ymchwil y Senedd
Papur tystiolaeth - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan [Saesneg yn unig]

## Egwyl

(11.25-11.45)

## 4 Yr Economi Sylfaenol: Panel 6 - Sesiwn weinidogol

(11.45-12.45) (Tudalennau 80 - 96)

Rebecca Evans MS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru
Aine Gawthorpe, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Trawsnewid Diwydiannol ac Economi Sylfaenol, Llywodraeth Cymru
Duncan Hamer, Cyfarwyddwr Gweithrediadau - Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru
Stephen Layne, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwaith Teg, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:
Papur tystiolaeth - Llywodraeth Cymru

## Egwyl

(12.45-12.50)

## 5 Gwaith Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidogion - Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

(12.50-14.05) (Tudalennau 97 - 129)

Rebecca Evans MS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru

Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Duncan Hamer, Cyfarwyddwr Gweithrediadau - Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru

Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr - Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach, Llywodraeth Cymru

Jo Salway, Cyfarwyddwr - Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Papur briffio Ymchwil y Senedd

Papur tystiolaeth - Llywodraeth Cymru

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.05)

## Cyfarfod preifat

(14.05-14.30)

## 7 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

(14.05-14.20)

## 8 Cydsyniad deddfwriaethol: Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg - trafod yr adroddiad drafft

(14.20-14.25)

## 9 Ymweliad cyd-bwyllgor y Senedd ag Iwerddon

(14.25-14.30) (Tudalennau 130 - 142)

Dogfennau atodol:

Adroddiad yr ymweliad: Ymweliad traws-bwyllgor ag Iwerddon

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0283/24 (MA/LG/2749/23)

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

11 Hydref 2024

Annwyl Paul,

Ymhellach i'r llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor ar 12 Chwefror 2024 gan fy rhagflaenydd, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd, sef Lesley Griffiths AS ynghylch Rheoliadau Fframwaith Windsor (Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol) 2024 ('Rheoliadau 2024'). Roedd y llythyr yn hysbysu'r Pwyllgor o'i bwriad i roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol i Offeryn Statudol y DU hwn fod yn gymwys yng Nghymru.

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fod Rheoliadau 2024 wedi eu gosod gerbron Senedd y DU ddoe, 10 Hydref. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig. I'w weld, ewch i.

Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd gosod Rheoliadau 2024 gerbron Senedd y DU ym mis Chwefror 2024, ni ddigwyddodd hyn er mwyn gallu cynnal trafodaethau pellach gyda'r Undeb Ewropeaidd ar gyflawni gweithredol. Yn dilyn trafodaethau boddhaol, mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi cadarnhau nad oedd angen unrhyw welliannau, ac ar wahân i gyflwyno dyddiadau dod i rym yn raddol, mae'r drafft yr un fath ag yr oedd pan roddwyd cydsyniad ym mis Chwefror 2024. Er y newid mewn Llywodraeth, rwy'n fodlon bod y cydsyniad a roddwyd ym mis Chwefror yn dal yn ddilys.

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau, sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd Rhannau 1, 2, a 4 yn dod i rym ar 31 Mawrth 2025. Bydd yr holl rannau eraill yn dod i rym ar 4 Mehefin 2025.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ond yn yr achos hwn, ystyriwyd y byddai'n briodol i'r Rheoliadau fod yn gymwys i Gymru. Nid wyf o'r farn mai deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen. Mae creu rheoliadau sy'n cwmpasu Prydain Fawr i gyd yn sicrhau cysondeb ar draws y DU, gan osgoi gwahaniaethau deddfwriaethol a allai beryglu'r broses barhaol o weithredu Fframwaith Windsor.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Eitem 2.2


**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**–**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565


Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

15 Hydref 2024

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

Ysgrifennais atoch yr wythnos diwethaf i'ch gwahodd i gyfarfod i drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Ynni Prydain Fawr. Deallaf fod ein swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â'i gilydd a'ch bod wedi cytuno dros dro i fod yn bresennol ar fore 4 Tachwedd 2024 am awr.

Gan ein bod hefyd wedi ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg erbyn hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallem ddefnyddio'r amser ar 4 Tachwedd i drafod y Memorandwm hwn hefyd.

Eto, byddem yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion gysylltu â thîm clercio'r Pwyllgor i gadarnhau'r trefniadau perthnasol. Byddem yn fodlon darparu ar gyfer y swyddogion cynorthwyol priodol ar gyfer y ddau Femorandwm.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Y Pwyllgor Deisebau

Petitions Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

16 Hydref 2024

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

**Deiseb P-06-1403 Ailystyried Toriadau i Gyllid Ôl-raddedig a Chynyddu Benthyciadau Doethuriaeth i Gyfateb ag Ariantal Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI)**

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 16 Medi i drafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Micaela Panes.

Mewn gohebiaeth a anfonwyd at y Pwyllgor Deisebau, dywedodd y deisebydd nad oedd yn credu bod y Gweinidog Addysg ar y pryd wedi archwilio'n drylwyr i effaith torri grantiau a bwrsariaethau ôl-raddedig ac, o ganlyniad i'r toriadau, y byddai myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol yn colli cyfleoedd ar gyfer addysg. Nododd y bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr cartref sy'n dewis peidio â dilyn graddau ôl-raddedig oherwydd diffyg cymorth ariannol, gan nodi arolwg Undeb Myfyrwyr Grŵp Russell.[1].

Hoffem dynnu sylw at y pryderon a godwyd cyn gwaith craffu'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma:

https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=42854#:~:text=With%20the%20current%20cost-of-living%20crisis,%20the%20decline%20in

[1] https://russellgroupstudentsunions.org/cost-of-living-report

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb dros neges e-bost i'r tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir



Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

21 Hydref 2024

Annwyl Rebecca,

**Y Diwydiant Twristiaeth – Cais am y wybodaeth ddiweddaraf**

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor ymweliad canfod ffeithiau yng nghanolbarth Cymru, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y diwydiant twristiaeth lleol. Yn dilyn y trafodaethau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid, a chyn bod dau Fil arfaethedig sy'n ymwneud â thwristiaeth yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol agos, byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am y materion a ganlyn:

Cynllun peilot yn Nwyfor

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ar gyfer ein hymchwiliad i dwristiaeth, lletygarwch a manwerthu, dywedodd Vaughan Gething AS, cyn-Weinidog yr Economi, wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru "wedi ymrwymo i sefydlu cynllun cofrestru gwirfoddol yn Nwyfor, er mwyn dysgu gwersi a llywio'r broses o weithredu cynllun statudol."

Yn ei adroddiad ar yr ymchwiliad hwnnw, gwnaeth y Pwyllgor argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'r heriau y mae'r sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu yn eu hwynebu yn cael eu hystyried wrth ddatblygu ei dull gweithredu polisi a'i hymyriadau ynghylch ail gartrefi ac ardoll dwristiaeth leol.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn ei hymateb, gan ddatgan: "Byddem yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynllun peilot yn Nwyfor, a fydd yn profi nifer o ymyriadau sydd â'r nod o reoli niferoedd yr ail gartrefi a llety gwyliau byrdymor yn y dyfodol ac yn profi effaith hynny ar fforddiadwyedd gwell i bobl allu byw'n fforddiadwy yn eu cymunedau cartref

(p'un a ydynt yn prynu neu'n rhentu cartrefi).” Nododd yr ymateb hefyd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r peilot.

Er mwyn cefnogi gwaith craffu'r Pwyllgor, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r eitemau a ganlyn:

- Diweddariad ar y cynllun cofrestru gwirfoddol; a
- Diweddariad ar y cynllun peilot ehangach yn Nwyfor, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r gwerthusiad annibynnol, neu unrhyw gynnydd yn ei gylch.

## Proffiliau twristiaeth rhanbarthol a lleol

Yn y gorffennol, bu Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu gwaith ymchwil rheolaidd ar broffiliau twristiaeth rhanbarthol a lleol, gan amlinellu ystadegau allweddol. Fodd bynnag, nodaf nad oes diweddariad wedi'i gyhoeddi i'r gyfres hon ers 2021. A fyddai modd i chi gadarnhau a oes data mwy diweddar ar gael ac, os felly, a fydd y gyfres yn cael ei diweddaru yn unol â hynny?

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Peredur Owen Griffiths AS, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, ac at John Griffiths AS, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, gan fod y llythyr hwn yn trafod polisïau sydd hefyd yn dod o fewn cylchoedd gwaith eu pwyllgorau.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg

Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

**Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales**
Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, SY23 3FF

Ffôn/Tel: 01970 625 050
Ffacs/Fax: 01970 615 148
Ebost/Email: info@hybucig.cymru
Gwefan: hybucig.cymru
Websites: meatpromotion.wales
hcctrade.com
eatwelshlambcom
eatwelshbeef.com
porcblasus.cymru

21 Hydref 2024

At sylw: Paul Davies, Cadeirydd Pwyllgor ETRA

Annwyl Paul,

**Gweithrediadau a Chyflawniadau Hybu Cig Cymru**

Hoffwn ddiolch i chi eto am eich amser ddydd Mercher 25 Medi i gwrdd â mi, y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro, Heather Anstey-Myers, ac Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol HCC, Anne Dunn. Roeddwn yn meddwl ei bod yn drafodaeth agored a chynhyrchiol ac rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth a rannwyd yn cadarnhau bod Hybu Cig Cymru yn cyflawni ei amcanion yn unol â'i gylch gwaith statudol.

Er mwyn eglurder a chyfeirio, rwyf wedi amlinellu arolwg byr o'r hyn a drafodwyd gennym. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi neu staff perthnasol HCC.

**Y Broses o Ddisgyblu'r Prif Weithredwr**

Ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn ymwneud â chyn-Brif Weithredwr HCC, Gwyn Howells, roedd Bwrdd Hybu Cig Cymru yn unfrydol wrth dderbyn argymhelliad proses ddisgyblu annibynnol lle byddai ei gyn-Brif Swyddog Gweithredol, Gwyn Howells, wedi cael ei ddiswyddo am gamymddwyn difrifol pe na bai wedi ymddiswyddo.

Ymddiswyddodd Mr Howells yn union cyn gwrandawiad disgyblu, a oedd yn dilyn ymchwiliad trylwyr. Roedd y naill agwedd a'r llall yn cael eu cynnal gan arbenigwyr Adnoddau Dynol (AD) annibynnol, a oedd yn cael eu cefnogi gan gyngor cyfreithiol.

Penderfynodd y Bwrdd fod difrifoldeb y mater yn golygu y dylid caniatáu i'r swyddog disgyblu gyflwyno adroddiad terfynol i gloi'r broses yn gywir.

Daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad bod tystiolaeth ddigonol o gamymddwyn difrifol ar dri chyfrif gwahanol yn ymwneud â rheolaeth ac arweinyddiaeth Mr Howells.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn yr holl argymhellion gan yr ymgynghorwyr AD a chyfreithiol arbenigol drwy gydol y broses.

Mae Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales wedi gofrestru fel cwmni cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Rhif y Cwmni 4635113
Swyddfa gofrestredig: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales is registered as a limited company. Registered in England and Wales. Company number 4635113
Registered office: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

**Llywodraethiant a Materion Mewnol**

Mae'r broses a amlinellir uchod a materion staffio mewnol eraill, fel yr eglurwyd, yn gyfrinachol am resymau cyfreithiol, ac i sicrhau hefyd ein bod yn cydymffurfio â'n polisi urddas yn y gwaith ein hunain, maent yn feysydd gwaith y mae'r Bwrdd a'r Uwch Weithredwyr yn eu cymryd yn wirioneddol o ddifri.

Rwy'n credu'n gryf bod modd gwella llywodraethiant a diwylliant unrhyw sefydliad bob amser, a bwriadwn gyflawni hynny drwy ymrwymiad cadarn i weithio'n ddiflino gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i fynd ati'n rhagweithiol i adolygu, addasu a dysgu o'r hyn a fu'n gyfnod heriol.

O ganlyniad i'r materion a nodwyd, mae HCC wedi ymrwymo i adolygu'r holl weithdrefnau llywodraethiant ac mae hefyd yn gweithio'n agos gyda'r staff i nodi ffyrdd o greu newid cadarnhaol, ystyrlon, hirdymor a fydd yn caniatáu i'r sefydliad barhau i gyflawni, gyda'r rhagoriaeth y mae talwyr ardoll yn ei ddisgwyl.

Rydym yn ddiolchgar i'r Prif Weithredwr Dros-dro, Heather Anstey-Myers, am ei harweinyddiaeth graff a strategol ers ei phenodiad ym mis Ionawr ac mae'r Bwrdd yn parhau i'w chefnogi'n llawn.

Rydym yn gwerthfawrogi gwaith Heather a'r uwch dîm arweinyddol yn cefnogi ein staff ymroddedig eithriadol. Nid oes gan y Bwrdd ond edmygedd a chanmoliaeth i weithwyr HCC sydd wedi dangos eu gwytnwch a'u penderfyniad wrth ganolbwyntio ar gyflawni ar gyfer talwyr yr ardoll yn ystod cyfnod ansefydlog o newid.

Mae'r Bwrdd bob amser wedi bod yn glir taw ein staff yw ein hased mwyaf ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi iechyd a lles ein tîm. Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i daith o welliant parhaus a byddwn yn gweithio gyda'n staff ymroddedig i gyflawni newidiadau adeiladol a dylanwadol.

Nid hyn yw pen draw'r daith oherwydd bydd y gwaith hwn yn mynd ymlaen drwy'r amser, gan sicrhau dyfodol egnïol i'n staff, y diwydiant a HCC fel sefydliad.

**Y Broses o Recriwtio Prif Weithredwr ac Aelodau o'r Bwrdd**

Cytunodd y Bwrdd yn unfrydol ei bod yn hollbwysig i gychwyn yn gyflym ar broses i recriwtio a phenodi Prif Weithredwr newydd. Mae'r broses hon, a gynhelir ar y cyd ag Uwch Swyddogion Llywodraeth Cymru, ar y gweill a bydd pecynnau ymgeiswyr yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Mae Aelodau Bwrdd newydd, wrth gwrs, yn benodiadau Gweinidogol, ac mae HCC yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru gyda'r broses o recriwtio. Yn y cyfamser, mae gwaith y sefydliad yn parhau'n gyflym, gyda chefnogaeth Bwrdd Cyfarwyddwyr, sydd wedi'i gysylltu'n gynhenid â'r sector y mae'n ei wasanaethu a chyda chynrychiolaeth sylweddol o dalwyr ardoll.

**TAW**

Fel y trafodwyd gennym yn ystod ein cyfarfod, mae HCC yn parhau i ymdrin â materion cyllidebol cymhleth parhaus, gan gynnwys canlyniad penderfyniad Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi i newid ein statws TAW o'r 1af o Ebrill. Nid ni yw'r unig gorff ardoll a fydd yn teimlo effaith hyn.

Fodd bynnag, mae HCC yn parhau i ganolbwyntio'n gadarn ar ein blaenoriaethau o sicrhau gwerth am arian i dalwyr yr ardoll a hyrwyddo ein diwydiant cig coch yng Nghymru, ar draws y DG a ledled y byd.

Mae Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales wedi gofrestru fel cwmni cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Rhif y Cwmni 4635113
Swyddfa gofrestredig: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales is registered as a limited company. Registered in England and Wales. Company number 4635113
Registered office: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

**Cyflawniad HCC**

Mae gan HCC gynlluniau helaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod a chafodd y rhain, ynghyd â mesurau llwyddiant allweddol o'r 12 mis diwethaf, eu hamlinellu mewn atodiad i'r llythyr hwn er gwybodaeth i chi.

Er hwylustod cyfeirio a thryloywder, mae modd gweld Crynodeb o Gofnodion Bwrdd HCC yma: https://meatpromotion.wales/en/about/corporate-information/hcc-board/summary-minutes

A gallwch fynd at adroddiadau ariannol HCC yma: https://meatpromotion.wales/en/about/corporate-information/publications

Mae'r manylion hyn yn rhoi cipolwg byr ar ychydig o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ar ran talwyr yr ardoll ac mae rhaglen drylwyr i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei datblygu ymhellach.

Hoffwn ailadrodd ein polisi drws-agored a byddai'n bleser gennym gwrdd â chi eto cyn diwedd y flwyddyn i roi rhagor o fanylion am recriwtio Prif Weithredwr a dau aelod o'r Bwrdd, ynghyd â materion cig coch ehangach.

Yr eiddoch yn gywir
Catherine Smith

**Catherine Smith**
**Cadeirydd y Bwrdd / Chair of the Board**

Mae Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales wedi gofrestru fel cwmni cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Rhif y Cwmni 4635113
Swyddfa gofrestredig: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales is registered as a limited company. Registered in England and Wales. Company number 4635113
Registered office: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

**Adendwm: Uchafbwyntiau Cyflenwi HCC**

**Datblygu'r Farchnad a Masnach**

- Mae HCC yn gweithio'n galed dros dalwyr yr ardoll ac yn unol â'n hamcanion strategol a'r ddogfen weledigaeth gyfredol. Er enghraifft, roedd datblygu marchnadoedd yn ganolbwynt allweddol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf
- Yn arbennig, gwledydd Cyngor Cydweithredu'r Gwlff; y Dwyrain Pell ac UDA. Cafodd bob un o'r marc
- Yn ogystal, bu HCC yn Foodex Japan yn Tokyo ac AMC yn Nashville a bydd yn mynychu SIAL ym mis Hydref 2024.
- Ochr yn ochr â'r sioeau allweddol hyn, cyflwynodd HCC amrywiaeth o weithgareddau hyrwyddo llwyddiannus i gefnogi allforion allweddol ar draws ein marchnadoedd sefydledig, datblygol a newydd.

**Cynaliadwyedd a Pholisi / Ymchwil a Datblygu**

- Manteisiwyd ar aelodaeth o'r Ford Gron Fyd-eang ar gyfer Cig Eidion Cynaliadwy ac o'r Gynghrair Gig Fyd-eang a sicrhawyd bod HCC yn cyfrannu at ddeialog byd-eang ar gyfer cynhyrchu cig coch cynaliadwy a chasglu data amgylcheddol
- Cafodd y prif ganllaw strategol - Gweledigaeth 2025 - ei adnewyddu, gan alluogi ymatebion cyflym, effeithiol a chydgysylltiedig gan y diwydiant i'r heriau a'r cyfleoedd newydd a ddaeth i'r amlwg
- Yn ddiweddarach eleni, bydd HCC yn dechrau ar y broses o gynhyrchu olynydd i'r brif strategaeth saith-mlwydd-oed ar y cyd â'r holl randdeiliaid ar draws y gadwyn gyflenwi yng Nghymru
- Ar ben hyn, parhaodd HCC i integreiddio ac ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd drwy ei holl weithgarwch, gan ymestyn ei waith yn ystod 2023 fel arweinydd meddwl ynghylch cynhyrchu bwyd a rheoli tir trwy ddulliau cynaliadwy
- Datblygodd ymhellach ei safiad ar gynaliadwyedd sydd yn seiliedig ar ddata a thystiolaeth i gynorthwyo, hyrwyddo ac arwain y diwydiant trwy sefyllfa heriol ac esblygol
- Hefyd, parhaodd HCC i hyrwyddo ei drywydd cynaliadwy sydd yn uchel ei barch, sef Y Ffordd Gymreig, ac i ganolbwyntio ar y cysyniad a'r agweddau ymarferol ar ôl troed amgylcheddol cyflawn
- Bu HCC yn gweithio gyda Choleg Amaethyddol yr Alban i gynnal Dadansoddiad Cylch Bywyd (LCA) ar gyfer Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru er mwyn deall allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiol o'r fferm hyd at brosesu. Sicrhaodd gyllido allanol drwy brosiect Cronfa Her Arfor ar gyfer ymchwilio'n drwyadl am 12 mis i ddatgarboneiddio Cig Eidion Cymru PGI, ymhlith ffermwyr cig eidion Cymraeg eu hiaith yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion
- Roedd y gwaith ar esblygiad parhaus y brandiau GI Cymreig sy'n seiliedig ar darddiad yn cynnwys y pum metrig amgylcheddol - carbon, bioamrywiaeth, dŵr, iechyd y pridd, ac ansawdd aer - sy'n adlewyrchu ôl troed amgylcheddol Y Ffordd Gymreig o gynhyrchu cig coch
- Cyhoeddwyd llinell sylfaenol bioamrywiaeth yn 2023. Yn ogystal â'i brosiect 'Y Ffordd Gymreig', bu HCC mewn partneriaeth ag eraill yn y sector yn y DG ar fap trywydd cig eidion a chig oen i gyrraedd sero
- Am fwy nag ugain mlynedd, mae HCC wedi bod yn gwarchod twf a datblygiad cynaliadwy'r diwydiant ac mae wedi hyrwyddo gwelliannau i wneud ffermydd yn fwy effeithlon. Effeithlonrwydd ar y fferm oedd conglfaen Rhaglen Datblygu Cig Coch arloesol HCC dros gyfnod o bum-mlynedd, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac a ddaeth i

Mae Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales wedi gofrestru fel cwmni cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Rhif y Cwmni 4635113
Swyddfa gofrestredig: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales is registered as a limited company. Registered in England and Wales. Company number 4635113
Registered office: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

ben yn 2023. Mae HCC bellach yn adeiladu ar yr etifeddiaeth hollbwysig hon er budd ei dalwyr ardoll, drwy brosiect ArloesiAber a meysydd gwaith eraill sydd yn gysylltiedig ag ansawdd bwyta Cig Oen Cymru

- Mae hwyluso'r modd i alluogi arloesiadau, cyfleoedd a thechnegau newydd ac arloesol sy'n cefnogi'r diwydiant cig coch o ran cynhyrchiant, ansawdd y cig, ac amcanion amgylcheddol ac economaidd yn rhan hanfodol o genhadaeth HCC ac yn sail i'w waith Ymchwil a Datblygu
- Asgwrn cefn y gwaith hwn yw'r ymchwil cydweithredol gyda phrifysgolion a phartneriaid blaenllaw eraill ac mae'r gwaith Ymchwil a Datblygu hefyd yn helpu i ategu'r cynaliadwyedd a all fod yn sail i weithgareddau marchnata
- Ychwanegiad newydd eleni oedd Gweithgor Ymchwil a Datblygu Arloesedd Cynaliadwy HCC a oedd yn cynnwys cyfranogwyr allweddol yn y byd academaidd yn ogystal â rhanddeiliaid ar hyd y gadwyn gyflenwi cig coch i ymledu mentrau Ymchwil a Datblygu yn y dyfodol
- Rydym yn cyflwyno, datblygu a darparu'r rhaglen arloesol Cig-weithio, sef rhaglen 12-mis sy'n dod â phobl ifanc ar draws y gadwyn gyflenwi at ei gilydd.

**Marchnata Chyfathrebu**

- Rydym yn parhau i weithio gydag ymarferwyr ym maes Iechyd ac Addysg yn flynyddol i dynnu sylw at bwysigrwydd cig coch mewn diet cytbwys iach.  Cafodd set newydd o fideos wedi'u hanimeiddio sy'n dilyn y daith o'r fferm i'r fforc yng Nghymru, a gynhyrchwyd gan Hybu Cig Cymru (HCC), ei lansio yn 2024 er mwyn helpu i addysgu'r genhedlaeth nesaf ac i hyrwyddo Cig Oen Cymru PGI, Cig Eidion Cymru PGI a Phorc o Gymru  Mae rhagor o wybodaeth am waith HCC yma:-   https://redmeathub.wales/gb/en/health-education/education-resources/
- Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae ein tîm hefyd wedi gweithio'n ddiflino ar ddatblygu'r farchnad, masnachu, datblygu brand, prosiectau datblygu'r diwydiant a mynychu digwyddiadau amrywiol sy'n ymwneud â'r diwydiant
- Cynhyrchodd ymgyrchoedd Cig Oen Cymru PGI  a Chig Eidion Cymru PGI gan HCC yn 2023 ganlyniadau rhyfeddol
- Ar gyfer **Ymgyrch Cig Oen Cymru**, a fu'n rhedeg rhwng mis Awst a mis Hydref 2023, defnyddiwyd cymysgedd o hysbysebion teledu a dulliau mwy tactegol, megis hysbysebion ar bosteri yng nghyffiniau siopau allweddol lle'r oedd y cynnyrch ar gael.  Cyrhaeddwyd dros dair miliwn o ddefnyddwyr targed, a chafwyd ychydig o dan 24 miliwn o argraffiadau ledled Cymru a Lloegr.  Yn ogystal, gwelwyd cynnydd dramatig mewn ymweliadau â'r we, gydag ychydig dros 230,000 o bobl yn ymweld â'r safle dros y cyfnod o dri mis.   Golygodd hyn oll y bu cynnydd sylweddol o 26% mewn ymwybyddiaeth o'r brand a chynnydd o 7% yn nifer y rhai a oedd am brynu Cig Oen Cymru yn hytrach na brandiau cystadleuol. Ar ben hyn, o ganlyniad i hysbysebu wedi'i dargedu mewn lleoliadau allweddol, gwelwyd cynnydd o 10% yn nifer y cwsmeriaid a fu'n ymweld  â siopau mân-werthwr mawr yn Lloegr a oedd yn gwerthu'r cynnyrch.
- Cynhaliwyd **Ymgyrch Cig Eidion Cymru** rhwng Mis Tachwedd 2023 ac ail wythnos mis Ionawr 2024 ac roedd yn cynnwys lluniau tirwedd ysgubol a ffotograffau o'r tair fferm dan sylw ledled Cymru.  Dangoswyd hysbyseb deledu, yn cynnwys Ben ac Ethan Williams, ar S4C a chafwyd hysbysebion radio ar Smooth Radio ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr.  Yn ogystal, cafwyd hysbysebion yn yr awyr agored mewn lleoliadau o amgylch dinas Caerdydd yn ystod twrnamaint y Chwe Gwlad ac roedd hysbysebion digidol ar Facebook, Instagram, X a TikTok. Roedd yr ymgyrch hefyd yn cynnwys ryseitiau tymhorol ar gyfer cyfnodau'r gaeaf a'r Nadolig gan ddefnyddio toriadau a darnau mawr o gig a hyrwyddo Cig Eidion Cymru fel dewis Nadoligaidd nodedig ei ansawdd a'i flas. Cyrhaeddwyd dros 1.5miliwn o bobl drwy bob agwedd ar yr ymgyrch a bu dros 40,000 o gliciau ar sianeli cymdeithasol a thudalennau gwe Cig Eidion Cymru.  Mae canlyniadau'r ymgyrch yn dangos fod 85% o oedolion

Mae Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales wedi gofrestru fel cwmni cyfyngedig.  Cofrestrwyd  yng Nghymru a Lloegr.  Rhif y Cwmni 4635113
Swyddfa gofrestredig: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales is registered as a limited company.  Registered in England and Wales. Company number 4635113
Registered office: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

Cymru yn ymwybodol o frand Cig Eidion Cymru a'u bod yn 21% yn barotach i brynu'r cig ar ôl yr ymgyrch, sy'n dangos effaith gadarnhaol yr hysbysebu

- Bwriedir i ymgyrchoedd 2024 adeiladu ar y llwyddiant hwn, gydag Ymgyrch Cig Oen PGI 2024 yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf ac ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI i ddechrau cyn gŵyl hollbwysig y Nadolig
- Cyrhaeddodd ymgyrch Cig Oen Cymru HCC , 'Unigryw i Gymru – Arbenigwyr yn eu Maes' rownd derfynol Gwobrau Drum ac roedd hefyd ar restr fer gwobrau Rhagoriaeth CIPR a Gwobrau PRCA DARE – sydd yn glod i'r gwaith arbenigol y mae ein timau yn ei wneud ar ran talwyr yr ardoll.

Mae Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales wedi gofrestru fel cwmni cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Rhif y Cwmni 4635113
Swyddfa gofrestredig: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales is registered as a limited company. Registered in England and Wales. Company number 4635113
Registered office: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

21 Hydref 2024

Annwyl Huw,

**Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Hydref ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygiadau i Atodiad A i'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 16 Hydref. Gwnaethom gytuno i ymateb yn unol â'r terfyn amser y gofynnwyd amdano, sef 29 Tachwedd.

I gynorthwyo'r gwaith o baratoi ein hymateb, byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu eich sylwadau cyffredinol ar y cynigion, yn ogystal â mynd i'r afael â'r pwyntiau penodol a ganlyn:

- I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r gwaith o baratoi'r ddogfen ymgynghori ddrafft;
- A fyddai modd i chi rannu eich barn ar y cam o ddileu rôl Gweinidogion Cymru fel awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi nifer o Gyd-gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd, a'r cyfiawnhad dros wneud hynny;
- A fyddai modd i chi nodi a oes unrhyw asesiad effaith wedi'i gynnal ar y cam o ddileu rôl Gweinidogion Cymru fel awdurdod sy'n gyfrifol am y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd hyn. Er enghraifft, a allai cam o'r fath effeithio ar uchelgais pysgotwyr Cymru o ran targedu'r stociau hynny yn y dyfodol; ac
- A fyddai modd i chi nodi a oes mecanwaith ar waith, neu yn yr arfaeth, a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i adennill eu cyfrifoldeb dros y Cyd-gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd

hynny, a beth fyddai hyn yn ei olygu. Er enghraifft, a fyddai modd sicrhau bod trafodaethau ynghylch yr awdurdodau cyfrifol yn rhan safonol o'r adolygiad chwe blynedd a gynhelir ar bob Cynllun Rheoli Pysgodfeydd.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 8 Tachwedd 2024.

Yn gywir,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg

**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

22 Hydref 2024

Annwyl gyfaill,

**Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd**

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wrthi'n ystyried ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygiadau i Atodiad A i'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd, gyda'r nod o ymateb cyn diwedd mis Tachwedd.

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod eisoes, o bosibl, yn llunio ymateb i'r ymgynghoriad gan eich sefydliad. Fodd bynnag, hoffem eich gwahodd i rannu unrhyw sylwadau cyffredinol sydd gennych ar y newidiadau arfaethedig, fel y gallem eu hystyried wrth baratoi ymateb y Pwyllgor. Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon unrhyw sylwadau atom erbyn 8 Tachwedd, os yw hynny'n bosibl.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0311/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

6 Tachwedd 2024

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Hydref yn gofyn am fy safbwyntiau ar y cynigion a gynhwysir yn yr ymgynghoriad ar y cyd â'r DU ar welliannau i'r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am eich cydnabyddiaeth o'r dyddiad cau ar 29 Tachwedd. Rwyf wedi ymdrin â phob cwestiwn yn eu tro isod.

**I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r gwaith o baratoi'r drafft ymgynghori?**

Mae Deddf Pysgodfeydd 2020, paragraff 2(1) Atodlen 1, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau polisïau pysgodfeydd, gan weithredu ar y cyd, baratoi drafft ymgynghori. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwneud yn llawn â pharatoi'r drafft ymgynghori o'r cychwyn cyntaf. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y DU ym mis Awst 2024 i ystyried pryderon a godwyd gan Weithgor Cynllun Rheoli Pysgodfeydd y DU (FMP) na fyddai'r terfynau amser ar gyfer cyhoeddi'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn cael eu bodloni. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei chynrychioli ar y Gweithgor a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac mae fy swyddogion wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r penderfyniad a wnaed i adolygu Atodiad A y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd a pharatoi'r drafft ymgynghori. Mae fy swyddogion yn fy hysbysu bod y dull cydweithredol ar draws y DU wedi bod yn rhagorol ac yn unol â'r ffyrdd o weithio a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Fframwaith Cyffredin Rheoli Pysgodfeydd a Chefnogi Cynaliadwyedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**A allech rannu eich barn am ddileu Gweinidogion Cymru, a'r cyfiawnhad dros wneud hynny, fel awdurdod cyfrifol dros baratoi a chyhoeddi nifer o Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ar y cyd?**

Mae 21 o'r cynlluniau, sy'n cael eu cydlynu gan Lywodraeth yr Alban, yn cynnwys Llywodraeth Cymru (ynghyd â'r Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd eraill) sy'n gyfrifol ar y cyd am eu paratoi a'u cyhoeddi. O ystyried yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu o'r broses Cynllun Rheoli Pysgodfa hyd yma, a thrwy fyfyrio ar gwmpas a graddau'r Cynllun, ystyriwyd gofyn am farn ynghylch a oes angen parhau fel awdurdod cyd-gyfrifol ar gyfer y cynlluniau hyn. Byddai cael gwared ar Weinidogion Cymru fel awdurdod cyfrifol yn ein galluogi i ganolbwyntio ein hadnoddau cyfyngedig ar gyhoeddi a gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd sydd bwysicaf i Gymru. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi manylion y cynnig ar dudalennau 12 – 13.

**A allech nodi a oes unrhyw asesiad effaith wedi'i gynnal ar ddileu Gweinidogion Cymru fel awdurdod cyfrifol ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd hyn? Er enghraifft, a allai'r dileu gael effaith ar uchelgeisiau pysgotwyr yng Nghymru i dargedu'r stociau hynny yn y dyfodol?**

O ystyried y ffocws cul hwn o'r ymgynghoriad ar Atodiad A y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, ystyriodd fy swyddogion yr angen i ddiwygio'r Asesiad Effaith Naratif, a gwblhawyd ar gyfer y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn wreiddiol. Cynghorwyd na fydd y gwelliannau a gynigir i Atodiad A yn newid yr effeithiau a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Naratif gan fod y diwygiadau arfaethedig i Atodiad A yn unig. Felly, ni fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar bolisïau'r Cynllun Rheoli Pysgodfa yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Cyn eu cyhoeddi, mae pob Cynllun Rheoli Pysgodfa yn destun asesiadau effaith priodol.

Yn benodol ar ddileu Gweinidogion Cymru fel awdurdod cyfrifol, mae ein data'n dweud wrthym nad oes mwy na dau o'n pysgotwyr wedi gweithredu yn y meysydd dan sylw yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a phan wnaethant hynny, i ddalfeydd y stociau sy'n ddarostyngedig i'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd perthnasol fod yn sgil-ddalfeydd yn unig. Ni fydd cael gwared ar Weinidogion Cymru fel awdurdod cyfrifol yn effeithio ar unrhyw uchelgais gan bysgotwyr yn y dyfodol a allai fod eisiau targedu'r stociau hyn neu sydd angen ymdrin â sgil-ddaliadau, yn amodol ar yr arferion sefydledig ar gyfer cael cwota sy'n parhau heb eu newid.

Credwn mai’r awdurdodau hynny sydd â chyfrifoldebau rheoleiddio a/neu fuddiant uniongyrchol mewn pysgodfeydd yn yr ardaloedd a gwmpesir gan y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd hynny ddylai gymeryd camau gweithredu rheoli yn ymwneud â'r perygl o orbysgota, agweddau economaidd-gymdeithasol a rhyngweithio ecosystemau. Mae buddiant uniongyrchol pysgodfeydd yn cynnwys y tebygolrwydd y bydd cychod awdurdod yn pysgota yn yr ardaloedd hyn, neu y bydd dyfroedd yr awdurdod yn agos at yr ardaloedd hyn. Yn y ddau achos, mae'r tebygolrwydd hwn yn fach iawn.

Er y gall llongau o Gymru bysgota mewn ardaloedd y tu allan i barth Cymru a fydd yn cael eu heffeithio gan y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd hynny, rydym am gymryd ymagwedd gymesur sy'n adlewyrchu'r ffaith mai anaml y mae llongau o Gymru yn targedu'r rhywogaethau sy'n destun y cynlluniau hyn. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb â'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd eraill a restrir, lle nad oes gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb ar y cyd oherwydd bod cwmpas daearyddol y Cynllun Rheoli Pysgodfeydd y tu allan i barth Cymru yn gyfan gwbl.

**A allech nodi a oes mecanwaith ar waith, neu wedi ei gynllunio, i Weinidogion Cymru adennill cyfrifoldeb am y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ar y cyd hynny, a beth fyddai hyn yn ei olygu? Er enghraifft, a allai ystyried awdurdodau cyfrifol fod yn rhan safonol o'r adolygiad chwe blynedd o bob Cynllun Rheoli Pysgodfa?**

Rhaid i Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd adolygu Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd pryd bynnag y byddant yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny a gallant baratoi a chyhoeddi Cyd-ddatganiad newydd neu ddiwygiedig ar unrhyw adeg. Rhestrir yr awdurdodau cyfrifol ar gyfer Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn Atodiad A o'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd ac mae rhwymedigaeth o dan Ddeddf Pysgodfeydd 2020 i adolygu'r Cyd-ddatganiad cyn diwedd cyfnod o chwe blynedd o'i gyhoeddi.

Felly, os oedd Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol adennill cyfrifoldeb am unrhyw Gynllun Rheoli Pysgodfa, gellid ceisio adolygiad o'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd.

Fel a grybwyllwyd gennych, ar ôl ei gyhoeddi, bydd pob Cynllun Rheoli Pysgodfa hefyd yn destun adolygiad chwe blynedd, ac mae'n rhaid i'r awdurdodau perthnasol adolygu Cynllun Rheoli Pysgodfa pryd bynnag y byddant yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion, drwy eu hymgysylltiad â Gweithgor Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd y DU, argymell y dylai ystyried awdurdodau cyfrifol fod yn rhan safonol o adolygiad pob Cynllun Rheoli Pysgodfa.

Gobeithio fod yr wybodaeth hon yn ateb eich holl gwestiynau. Rhowch wybod os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

George Davis
Y Gymdeithas Ffermwyr Helgig

Rachel Evans
Cynghrair Cefn Gwlad

David Pooler
Sefydliad Cenedlaethol Ceidwaid Helgig

Charles De Winton
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

Roger Draycott
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helgig a Bywyd Gwyllt

22 Hydref 2024

Annwyl rhanddeiliaid,

**Y defnydd o gawelli ar gyfer ffesantod a phetris gan y diwydiant saethu yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r cynnig a gawsom ar gyfer ymchwiliad i'r "defnydd o gewyll ar gyfer ffesantod a phetris gan y diwydiant saethu yng Nghymru" gan Animal Aid a'r Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon. Rwyf wedi anfon eich llythyr at yr Aelodau er gwybodaeth.

Fel y soniais yn fy ymateb i'r awgrym, mae gan y Pwyllgor raglen waith lawn wedi'i threfnu tan ddiwedd y flwyddyn. Bydd yr Aelodau yn penderfynu ar raglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn tuag at ddechrau tymor yr hydref. Fel rhan o hyn, byddwn yn ystyried yr ymchwiliad a argymhellir. Er eglurder, nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ar y rhaglen waith nac ychwaith ynghylch a fydd y pwyllgor yn bwrw ymlaen â'r ymchwiliad hwn.

Fodd bynnag, pe bai'r Aelodau'n penderfynu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dylech fod yn dawel eich meddwl y bydd y Pwyllgor, fel gydag unrhyw ymchwiliad, yn edrych ar y mater yn ei gyfanrwydd. Byddwn yn cymryd tystiolaeth ac yn clywed gan bob ochr ar y mater, gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth eang hon i ffurfio unrhyw argymhellion. Derbyniwch fy sicrwydd hefyd, os bydd y Pwyllgor yn penderfynu cynnal ymchwiliad i'r defnydd o gewyll / unedau dodwy uwch neu'r sector helwriaeth ehangach, byddwn yn gwahodd tystiolaeth gan eich sefydliadau.

Diolch am eich diddordeb yng ngwaith y Pwyllgor.

Cofion cynnes,


Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig


Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Eitem 2.8

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Iain Quick
Pennaeth Swyddfa Llywodraeth Cymru – Dulyn
Llywodraeth Cymru

22 Hydref 2024

Annwyl Iain,

**Ymweliad Cydbwyllgor y Senedd â swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn**

Rwy'n ysgrifennu ar ran dirprwyaeth y Senedd y gwnaethoch ei chroesawu yn ddiweddar yn Nulyn i ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am gynorthwyo â'n hymweliad diweddar. Fel Aelodau, roeddem wir yn gwerthfawrogi'r diweddariad a roesoch inni am waith diweddar Llywodraeth Cymru yn cefnogi buddsoddiad, masnach a chysylltiadau diwylliannol rhwng cenhedloedd Cymru ac Iwerddon, hyrwyddo celfyddydau Cymru, annog cydweithredu rhwng prifysgolion, a hyrwyddo busnesau Cymreig yn Iwerddon.

Roeddem hefyd yn ddiolchgar iawn i chi am drefnu ein cyfarfodydd â'r rhai sy'n ymwneud â'r Greenlink Interconnector, Siambr Fasnach Iwerddon Prydain, a MaresConnect. Roedd y cyfarfodydd a'r cyflwyniadau yn addysgiadol ac yn ddifyr, ac roedd yr hyn a glywsom yn ddefnyddiol i ni ei ystyried fel rhan o'n gwaith i ddatblygu cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon. Rydym wir yn ddiolchgar i chi am gynnal a hwyluso'r cyfarfodydd hyn. Byddwn yn ddiolchgar pe baech anfon ein diolchiadau ymlaen i'r sefydliadau am eu cyflwyniadau a'u hamser.

Rwyf wedi copïo'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith gan fod eu Pwyllgorau wedi'u cynrychioli ar yr ymweliad hwn.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir, gyda diolch,



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Copi i: Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd
Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Niamh Smyth
Cadeirydd Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau yr Oireachtas

22 Hydref 2024

Annwyl Cathaoirleach,

**Cyfarfod Cydbwyllgor y Senedd â chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau**

Rwy'n ysgrifennu ar ran dirprwyaeth y Senedd â ymwelodd â'r Oireachtas yn ddiweddar i ddiolch i chi a'ch cyd-Aelodau am gynorthwyo â'n hymweliad. Roeddem wir yn ddiolchgar i chi am eich amser, a'r croeso a roesoch inni yn ein cyfarfod diweddar â'r Seneddwyr Malcolm Byrne a Fintan Warfield.

Mae Iwerddon a Chymru yn rhannu nifer o gysylltiadau diwylliannol – cysylltiad sy'n ymestyn yn ôl i gyfnod y seintiau. Mae'r ddwy genedl yn hynod falch o'n traddodiadau o gân, barddoniaeth a chelf. Mae cadw ein hanes diwylliannol, a chefnogi'r sector diwylliannol ac artistiaid heddiw yn hollbwysig, ac roeddem ni fel Aelodau'n teimlo bod llawer iawn yn cysylltu ein profiadau. Roeddem hefyd yn teimlo bod llawer y gallem ei ddysgu o brofiad Iwerddon, gan gynnwys eich cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer artistiaid, yn ogystal â sut mae llywodraeth Iwerddon wedi dewis cynyddu buddsoddiad yn y celfyddydau.

Ers ein hymweliad cyntaf â chi y llynedd, croesawaf y ffaith bod cydweithredu rhwng ein pwyllgorau a'n seneddau wedi mynd o nerth i nerth. Diolchwn ichi am eich ymgysylltiad parhaus â'n gwaith, a'ch cefnogaeth ar ei gyfer, a byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth, tystiolaeth a phrofiad gyda chi.

Rydym yn gobeithio y gallwn gwrdd â chi wyneb yn wyneb eto yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, fodd bynnag, byddwn i'n gwerthfawrogi pe gallem geisio sefydlu amserlen reolaidd o gyfarfodydd


Senedd Cymru
Welsh Parliament

rhithwir rhwng y ddau ohonom fel Cadeiryddion pwyllgorau.  Gyda'ch cytundeb chi, byddai ein timau yn y Senedd yn falch iawn o wneud trefniadau addas ar gyfer cyfarfod yn y misoedd nesaf.

Unwaith eto, ac ar ran holl Aelodau'r ddirprwyaeth, hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am eich croeso a'ch amser.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Seneddwr Malcolm Byrne a'r Seneddwr Fintan Warfield. Rwyf hefyd wedi copïo'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith gan fod eu Pwyllgorau wedi'u cynrychioli ar yr ymweliad hwn.

Yn gywir, gyda diolch,



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Copi i:  Seneddwr Malcolm Byrne, Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau yr Oireachtas
Seneddwr Fintan Warfield, Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau yr Oireachtas
Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd
Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Maureen Kennelly
Cyfarwyddwr
Cyngor Celfyddydau Iwerddon

22 Hydref 2024

Annwyl Maureen,

**Ymweliad Cydbwyllgor y Senedd â Chyngor y Celfyddydau**

Rwy'n ysgrifennu ar ran dirprwyaeth y Senedd i ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am y croeso gennych yn ystod ein hymweliad diweddar â'ch swyddfa yn Nulyn. Roedd y cyfarfod yn addysgiadol iawn, ac yn ddefnyddiol ar gyfer ein gwaith parhaus ar gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb arbennig mewn clywed am eich gwaith yn datblygu a chefnogi celf a diwylliant drwy gyfrwng y Wyddeleg - a gwnaeth y buddsoddiad cynyddol yng nghelfyddydau eich gwlad greu argraff fawr ar Aelodau fy mhwyllgor.

Fel y gwnaethom drafod ar y pryd, mae fy mhwyllgor wedi cynnal ymchwiliad yn ddiweddar yn edrych ar effeithiau Brexit ar artistiaid a gweithwyr creadigol, ac roeddem yn ddiolchgar ichi am gyflwyno tystiolaeth i'n cynorthwyo yn ein trafodaethau. Rydym wrthi'n drafftio adroddiad a fydd yn pwyso a mesur yr holl dystiolaeth a gawsom yn ystod yr ymchwiliad hwnnw, a gwn y bydd eich mewnbwn yn chwarae rhan annatod yn y gwaith hwnnw.

Ar ran y ddirprwyaeth, hoffwn fynegi ein diolch i chi a'ch cydweithwyr am eich gofal a'ch amser, yn enwedig gan eich bod mor brysur yn rheoli eich Noson Ddiwylliant. Gobeithio ei bod wedi bod yn llwyddiant.

Rwyf wedi copïo'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith gan fod eu Pwyllgorau wedi'u cynrychioli ar yr ymweliad hwn.

Yn gywir, gyda diolch,

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Copi i: Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd
Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Brian Leddin TD
Cathaoirleach

24 Hydref 2024

Cyfarfod Pwyllgorau'r Senedd â chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Amgylchedd a Gweithredu ar yr Hinsawdd

Annwyl Cathaoirleach,

Rwy'n ysgrifennu ar ran dirprwyaeth y Senedd i ddiolch i chi a'ch cyd-aelodau am gynorthwyo â'n hymweliad diweddar â Dulyn. Gwnaethom fwynhau ein cyfarfod ag Alan Farrell TD a Darren O'Rourke TD yn fawr iawn, a oedd yn addysgiadol, yn ddiddorol ac yn bwysig i'n gwaith parhaus ar gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

Gwn fod Aelodau o'r Senedd wedi gwerthfawrogi'r drafodaeth ddiddorol am rai o'r heriau a'r cyfleoedd cyffredin wrth frwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan yr Oireachtas a'r Senedd, yn ogystal â'r trefniadau craffu sydd gennych ar waith. Fel rhan o'n hymweliad, gwnaethom hefyd gyfarfod â Green Link Interconnector a Mares Connect a ddywedodd wrthym am y gwaith diddorol sy'n cael ei wneud ar seilwaith ar y cyd sy'n cysylltu ein cenhedloedd.

Yn dilyn yr ymweliad hwn, rydym yn croesawu eich cytundeb i archwilio sut y gallwn gryfhau cysylltiadau rhwng ein pwyllgorau.

Unwaith eto, ar ran holl Aelodau'r ddirprwyaeth, hoffwn ddiolch i chi a'ch cyd-Aelodau am y croeso cynnes a'ch amser.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol gan fod cynrychiolaeth o'u Pwyllgorau nhw wedi bod ar yr ymweliad hwn hefyd.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AS,

Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

28 Hydref 2024

Annwyl Huw,

**Cais am wybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26**

Ysgrifennaf atoch i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Fel y gwyddoch, mae trefniadau yn cael eu gwneud i chi fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2025 i roi tystiolaeth lafar ar y mater.

Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael. Yn amlwg, nid oes yn rhaid i chi gyfyngu eich ymateb i'r cais hwn, ac mae rhwydd hynt i chi ymdrin ag unrhyw faterion eraill y byddent, yn eich barn chi, o gymorth i'r Pwyllgor yn ei waith craffu ar y gyllideb.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 11 Rhagfyr 2024.

Diolch yn fawr am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Yn gywir,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Atodiad**

Cais am wybodaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i lywio gwaith craffu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gyllideb ddrafft 2025-26.

**Cyflwyno'r gyllideb**

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i ganfyddiadau ar y Gyllideb Ddrafft yn unol â dull cydgysylltiedig cytunedig sy'n canolbwyntio ar bedair egwyddor craffu ariannol, sef:

- Fforddiadwyedd – i edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt;
- Blaenoriaethu – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- Gwerth am arian - yn y bôn, p'un a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau'n dda - darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y. canlyniadau);
- Prosesau'r gyllideb – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth, a rheolaeth perfformiad a rheolaeth ariannol.

Darparwch y canlynol ar gyfer cyllideb ddrafft Materion Gwledig yn ei chyfanrwydd:

- Dadansoddiad o gyllideb ddrafft 2025-26, ac unrhyw gyllidebau dangosol yn y dyfodol, fesul Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, o ran refeniw a chyfalaf, ynghyd â dyraniadau Cyllideb 2024-25 fel cymhariaeth;
- manylion y sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau cyllidebol;
- disgrifiad naratif o'r prif bolisïau a rhaglenni a ariennir gan bob Llinell Wariant yn y Gyllideb;
- manylion y prosesau sydd ar waith i fonitro cyllidebau drwy gydol y flwyddyn, i ganfod gwargedion a diffygion posibl, a chymryd camau i unioni'r gyllideb neu i ddyrannu arian ychwanegol i dalu am unrhyw ddiffygion;
- manylion unrhyw adroddiadau/adolygiadau sy'n gwerthuso polisïau neu raglenni, sydd wedi arwain at newidiadau i'r gyllideb ddrafft er mwyn sicrhau gwerth am arian;
- goblygiadau costau byw uwch ar ddyraniadau cyllideb a rhaglenni;
- Unrhyw oblygiadau i'r gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â'r adferiad o bandemig COVID-19;

- Unrhyw oblygiadau i'r gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â threfniadau pontio'r UE yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE;
- sut y mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer gweithredu deddfwriaeth a gaiff ei phasio yn y Senedd, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol y DU;
- pa ystyriaeth sydd wedi cael ei rhoi i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth benderfynu ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft;
- manylion am sut y mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei dylanwadu gan unrhyw asesiadau effaith o ran cydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg;
- sut y mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i leihau effaith amddifadedd a thlodi; a
- Sut mae Llywodraeth Cymru  wedi cynllunio ar gyfer newidiadau demograffig wrth baratoi ei chyllideb ddrafft, yn enwedig yr angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.

**Gwariant Ataliol:**

Byddwn yn ystyried gwariant ataliol fel rhan o'n gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Y diffiniad o wariant ataliol a fabwysiedir at y diben hwn yw:

> … *gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac sy'n lleddfu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar, a thrwy hynny sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian.*

Gan gofio'r diffiniad hwnnw, hoffem gael gwybodaeth am:

- Y gyfran o gyllideb Materion Gwledig a ddyrennir i fesurau gwariant ataliol;
- manylion y polisïau neu raglenni penodol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn y bwriedir iddynt fod yn ataliol, a sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu trawsnewid yn ymarferol, i sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol; a
- sut y caiff gwerth am arian rhaglenni o'r fath ei werthuso, gan ganolbwyntio'n arbennig ar beth yw'r mewnbynnau penodol a'r canlyniadau a fwriedir.

**Llinellau gwariant yn y gyllideb unigol**

Yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am y Llinellau Gwariant Cyllideb unigol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor, hoffem gael y wybodaeth a ganlyn am y polisïau a'r materion a amlinellir isod:

- Manylion y costau a/neu unrhyw waith a wnaed i asesu'r costau sydd ynghlwm wrth roi'r polisïau hyn ar waith yn ystod 2025-26;

- gwybodaeth yn ymwneud â sut y caiff y dulliau o weithredu'r polisi, a'r canlyniadau cysylltiedig, eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian; ac
- Sut y mae cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth i'r Gymraeg wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

**Materion Gwledig**

Rhaglen Lywodraethu 2021-2026:

- Eglurhad o sut mae dyraniadau'r gyllideb yn eich portffolio yn cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu.
- Sut mae dyraniadau'r gyllideb Materion Gwledig yn mynd i'r afael ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ar draws pob maes polisi.

**Gwariant Ataliol:**

- Manylion am gyfran cyllideb y portffolio a ddyrannwyd ar gyfer camau gwariant ataliol a sut y mae'r gyfran wedi cynyddu o'i chymharu â chyllideb y llynedd.
- Manylion am ba bolisïau neu raglenni penodol yn y portffolio y bwriedir iddynt fod yn ataliol.

**Llunio polisïau yn seiliedig ar dystiolaeth**

- Eglurhad o sut rydych wedi defnyddio tystiolaeth wrth flaenoriaethu dyraniadau eich cyllideb ddrafft a sut y byddwch yn monitro ac yn arfarnu rhaglenni i sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian ac yn llywio prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol.
- Manylion am sut y mae'r gwaith o ddatblygu'r gyllideb ddrafft wedi'i lywio a sut y dylanwadwyd arno o ganlyniad i ymgynghori â rhanddeiliaid. Er enghraifft, canfu gwaith gan dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd, wrth flaenoriaethu amaethyddiaeth, siaradodd llawer o gyfranogwyr am gynhyrchu bwyd a mynediad at fwyd iach, a dod yn fwy hunangynhaliol er mwyn bod yn fwy ystyriol o newid hinsawdd.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

- Enghreifftiau o sut mae'r Ddeddf wedi llywio penderfyniadau ar ddyraniadau penodol yn y gyllideb.
- Manylion am sut mae'r broses asesu effaith wedi dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys enghreifftiau o ble mae penderfyniad wedi cael ei asesu yn erbyn amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

**Cydraddoldeb, y Gymraeg ac asesu hawliau plant**

- Manylion am sut rydych wedi ystyried effaith y gyllideb ddrafft ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig ac ar y Gymraeg, gan gynnwys manylion am unrhyw asesiadau effaith perthnasol.
- Manylion am sut y mae hawliau plant wedi cael eu hystyried yn y penderfyniadau cyllideb ar gyfer y portffolio.

**Meysydd polisi penodol**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am ddyraniadau'r gyllideb yn y meysydd polisi a ganlyn, a'r dibenion y maent wedi'u dyrannu ar eu cyfer:

- Datblygu a gweithredu polisi amaethyddol gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig i Gymru;
- datblygu polisi pysgodfeydd, gan gynnwys darparu Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd;
- Dileu TB buchol a dulliau eraill o reoli clefydau anifeiliaid megis ffliw adar a'r tafod glas;
- datblygu a gweithredu strategaeth bwyd a diod, gan gynnwys y Strategaeth Bwyd Cymunedol;

Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf, hefyd, am y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer cymorth i amaethyddiaeth.

**Deddfwriaeth**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth am y dyraniadau cyllidebol ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol ac arfaethedig; gweithredu is-ddeddfwriaeth arfaethedig a phresennol; ac ar gyfer gweithredu unrhyw ddeddfwriaeth newydd berthnasol yn y DU.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi manylion am sut y bydd dyraniadau yn y gyllideb ddrafft yn mynd i'r afael â'r materion a ganlyn:

- Taliadau amaethyddol parhaus cyn trosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd – y Cynllun Taliad Sylfaenol a chynlluniau newydd interim megis Cynllun Cynefin Cymru, Taliad Cymorth Organig a'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig.
- Y broses o drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, fel cynnal cynllun peilot, allgymorth, e.e. cymorth ar gyfer Cyswllt Ffermio, trefniadau gweinyddol ac ymchwil a datblygu;
- Y Rhaglen Dileu TB Buchol (gan gynnwys y cynllun cyflawni, profi ac iawndal);


Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Gweithredu, gorfodi ac adolygu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) 2021;
- Cymorth ariannol parhaus i'r sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu ar ôl i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ddod i ben;
- Polisïau allweddol sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Lles Anifeiliaid newydd Cymru 2021-26; a hefyd
- Polisi adnabod a symud da byw.

**Polisi goruchwylio ffiniau**

- Manylion cyllid yn ymwneud â pholisi goruchwylio ffiniau.

**Pwyllgor yr Economi,**
**Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and**
**Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

28 Hydref 2024

Annwyl Rebecca,

**Cais am wybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26**

Ysgrifennaf atoch i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Fel y gwyddoch, mae trefniadau yn cael eu gwneud i chi fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2025 i roi tystiolaeth lafar ar y mater.

Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael. Yn amlwg, nid oes yn rhaid i chi gyfyngu eich ymateb i'r cais hwn, ac mae rhwydd hynt i chi ymdrin ag unrhyw faterion eraill y byddent, yn eich barn chi, o gymorth i'r Pwyllgor yn ei waith craffu ar y gyllideb.

Rydym wedi ysgrifennu ar wahân at y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol i ofyn am wybodaeth yn ymwneud â Sgiliau a Chyflogadwyedd, Dysgu Seiliedig ar Waith a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol / Ymgysylltu â Chyflogwyr.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 11 Rhagfyr 2024.

Diolch yn fawr am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

**Atodiad**

Cais am wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i lywio gwaith craffu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gyllideb ddrafft 2025-26.

**Cyflwyno'r gyllideb**

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i ganfyddiadau ar y Gyllideb Ddrafft yn unol â dull cydgysylltiedig cytunedig sy'n canolbwyntio ar bedair egwyddor craffu ariannol, sef:

- Fforddiadwyedd – i edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt;
- Blaenoriaethu – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- Gwerth am arian - yn y bôn, p'un a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau'n dda o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, h.y. canlyniadau;
- Prosesau'r gyllideb – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth, a rheolaeth perfformiad a rheolaeth ariannol.

Darparwch y canlynol ar gyfer cyllideb ddrafft yr Economi yn ei chyfanrwydd:

- Dadansoddiad o gyllideb ddrafft 2025-26, ac unrhyw gyllidebau dangosol yn y dyfodol, fesul Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, o ran refeniw a chyfalaf, ynghyd â dyraniadau Cyllideb 2024-25 fel cymhariaeth;
- manylion y sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau cyllidebol;
- Disgrifiad naratif o'r prif bolisïau a rhaglenni a ariennir gan bob Llinell Wariant yn y Gyllideb;
- manylion y prosesau sydd ar waith i fonitro cyllidebau drwy gydol y flwyddyn, i ganfod gwargedion a diffygion posibl, a chymryd camau i unioni'r gyllideb neu i ddyrannu arian ychwanegol i dalu am unrhyw ddiffygion;
- manylion unrhyw adroddiadau/adolygiadau sy'n gwerthuso polisïau neu raglenni, sydd wedi arwain at newidiadau i'r gyllideb ddrafft er mwyn sicrhau gwerth am arian;
- Sut mae dyraniadau cyllideb ddrafft yn berthnasol i bob un o'r pedair blaenoriaeth yn Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach;
- Goblygiadau costau byw uwch a gwneud busnes ar ddyraniadau cyllideb a rhaglenni;


Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Unrhyw oblygiadau i'r gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â threfniadau pontio'r UE yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE;
- Sut mae'r Gweinidog yn rheoli unrhyw effaith negyddol ar gyllidebau o fewn y portffolio sy'n deillio o derfynu'r Cronfeydd Strwythurol a/neu yn ceisio manteisio ar unrhyw gyfleoedd a allai godi;
- sut y mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer gweithredu deddfwriaeth a gaiff ei phasio yn y Senedd, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol y DU;
- pa ystyriaeth sydd wedi cael ei rhoi i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth benderfynu ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft;
- manylion am sut y mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei dylanwadu gan asesiadau effaith o ran cydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg;
- sut y mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i leihau effaith amddifadedd a thlodi; a
- Sut mae Llywodraeth Cymru  wedi cynllunio ar gyfer newidiadau demograffig wrth baratoi ei chyllideb ddrafft, yn enwedig yr angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.

**Gwariant Ataliol:**

Byddwn yn ystyried gwariant ataliol fel rhan o'n gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Y diffiniad o wariant ataliol a fabwysiedir at y diben hwn yw:

> ... *gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac sy'n lleddfu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar, a thrwy hynny sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian.*

Gan gofio'r diffiniad hwnnw, hoffem gael gwybodaeth am:

- Y gyfran o gyllideb yr Economi a ddyrennir i fesurau gwariant ataliol;
- manylion y polisïau neu raglenni penodol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn y bwriedir iddynt fod yn ataliol, a sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu trawsnewid yn ymarferol, i sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol; a
- sut y caiff gwerth am arian rhaglenni o'r fath ei werthuso, gan ganolbwyntio'n arbennig ar beth yw'r mewnbynnau penodol a'r canlyniadau a fwriedir.

**Llinellau gwariant yn y gyllideb unigol**

Yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am y Llinellau Gwariant Cyllideb unigol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor, hoffem gael y wybodaeth a ganlyn am y polisïau a'r materion a amlinellir isod:

- Manylion y costau a/neu unrhyw waith a wnaed i asesu'r costau sydd ynghlwm wrth roi'r polisïau hyn ar waith yn ystod 2025-26;
- Sut y caiff y dulliau o weithredu'r polisi, a'r canlyniadau cysylltiedig, eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian; ac
- Sut y mae cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth i'r Gymraeg wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

**Yr economi:**

- Cymorth i helpu busnesau a gweithwyr o ganlyniad i gostau byw a gwneud busnes uwch;
- Unrhyw ddyraniadau mewn perthynas â'r Rhaglen Porthladd Rhydd yng Nghymru;
- Unrhyw ddyraniadau mewn perthynas â'r posibilrwydd o greu 'parthau buddsoddi' yng Nghymru;
- Dyraniadau i gefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol, gan gynnwys y rhai a wnaed i ddatblygu a chyflawni'r fframweithiau economaidd rhanbarthol, y Cymoedd Technoleg, a rhaglen Arfor 2;
- Unrhyw ddyraniadau i gefnogi'r unigolion a'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan benderfyniad Tata i atal cynhyrchu dur sylfaenol ym Mhort Talbot;
- Y dyraniadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r economi sylfaenol;
- Banc Datblygu Cymru – gan gynnwys dyraniadau i'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, Cynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru, a chymorth i fusnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr;
- Dyraniadau ariannol i Busnes Cymru;
- Y dyraniadau ariannol i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i 'geisio dyblu nifer y busnesau sy'n eiddo i weithwyr';
- Y Banc Cymunedol;
- Cymorth i sectorau gweithgynhyrchu allweddol fel y sector awyrofod, y sector moduron a'r sector dur;
- Y dyraniadau i gyflawni Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025, gan gynnwys 'Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru' a'r 'Gronfa Pethau Pwysig'; ac unrhyw ddyraniadau i ddatblygu olynydd

- Unrhyw ddyraniadau mewn perthynas â’r ardoll ymwelwyr a chynigion deddfwriaethol llety twristiaeth;
- Cymorth i gyflawni 'Cydweithio er budd manwerthu: cynllun gweithredu fforwm manwerthu Cymru’;
- Dyraniadau i gefnogi busnesau a gweithwyr wrth drosglwyddo i weithredu’n Sero Net, fel dyraniadau i gefnogi’r dasg o greu swyddi gwyrdd cynaliadwy, a dyraniadau a fydd yn sicrhau y bydd gan weithwyr y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swyddi hynny.

**Ymchwil, datblygu ac arloesi**

- Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2025-26 y bwriedir iddo ddarparu adnoddau ar gyfer pum blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru; gan gynnwys unrhyw gyllid sydd â’r nod o sicrhau bod gan Gymru gyfran deg o’r cyllid ymchwil, datblygu ac arloesi sydd ar gael gan gynnwys unrhyw gyllid i ddisodli cyllid yr UE;
- Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2025-26 y bwriedir iddo ddarparu adnoddau ar gyfer Strategaeth Arloesi Cymru;
- Manylion yr arian ar gyfer ymchwil ac arloesi ar draws Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

**Masnach**

- Manylion gweithredu trefniadau a rhwymedigaethau newydd o dan Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE;
- Manylion gweithredu Model Gweithredu Targed y Ffin newydd y DU, gan gynnwys darparu Swyddfeydd Rheoli Ffiniau Cymru.
- Manylion gweithredu cytundebau masnach ôl-Brexit y DU, gan gynnwys deddfwriaeth berthnasol;
- Y dyraniadau ariannol i gyflawni ‘Cynllun Gweithredu Allforio Cymru’ Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, i gynnwys goblygiadau sy'n deillio o ddiwedd y Strategaeth Ryngwladol yn 2025.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

28 Hydref 2024

Annwyl Jack,

**Cais am wybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26**

Ysgrifennaf atoch i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Fel y gwyddoch, mae trefniadau yn cael eu gwneud i chi fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2025 i roi tystiolaeth lafar ar y mater.

Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael. Yn amlwg, nid oes yn rhaid i chi gyfyngu eich ymateb i'r cais hwn, ac mae rhwydd hynt i chi ymdrin ag unrhyw faterion eraill y byddent, yn eich barn chi, o gymorth i'r Pwyllgor yn ei waith craffu ar y gyllideb.

O ystyried y gorgyffwrdd rhwng eich portffolio chi a phortffolio'r Gweinidog Addysg Bellach ac Addysg Uwch o ran cyllid ar gyfer sgiliau, prentisiaethau, ac ymchwil a datblygu, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth a ddarperir i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrth graffu ar y gyllideb, yn ogystal â'r dystiolaeth rydych yn ei darparu i'r Pwyllgor, cyn cyflwyno ein hadroddiad i'r Senedd.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 11 Rhagfyr 2024.

Diolch yn fawr am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Copi i: Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Atodiad**

Cais am wybodaeth gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol i lywio gwaith craffu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gyllideb ddrafft 2025-26.

**Cyflwyno'r gyllideb**

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i ganfyddiadau ar y Gyllideb Ddrafft yn unol â dull cydgysylltiedig cytunedig sy'n canolbwyntio ar bedair egwyddor craffu ariannol, sef:

- Fforddiadwyedd – i edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt;
- Blaenoriaethu – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- Gwerth am arian - yn y bôn, p'un a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau'n dda o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, h.y. canlyniadau;
- Prosesau'r gyllideb – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth, a rheolaeth perfformiad a rheolaeth ariannol.

Mae llythyr ar wahân wedi'i anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i ofyn am fanylion am Brif Grŵp Gwariant y Gyllideb Ddrafft ar gyfer yr Economi a gwariant ataliol.

Yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am y Llinellau Gwariant Cyllideb unigol o fewn eich cylch gorchwyl sy'n berthnasol i'r Pwyllgor, hoffem gael y wybodaeth a ganlyn am y polisïau a'r materion a nodir isod:

**Sgiliau a Chyflogadwyedd:**

- Cyfanswm y cwantwm cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i gyflawni'r Warant Pobl Ifanc yn 2025-26.
- Lefel y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i ddarparu Cyfrifon Dysgu Personol yn 2025-26.
- Manylion unrhyw gyllid penodol ar gyfer sgiliau a chyflogadwyedd a gynigir i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan benderfyniad Tata i atal cynhyrchu dur cynradd ym Mhort Talbot.
- Manylion unrhyw gyllid penodol ar gyfer sectorau sy'n trosglwyddo i sero net ar gyfer uwchsgilio ac ailsgilio gweithwyr.

- Rhestr gyfunol o'r holl raglenni cyflogadwyedd a ariennir gan y Llinell Wariant yn y Gyllideb Sgiliau, gan gynnwys:
    - cleientiaid / buddiolwyr arfaethedig pob rhaglen;
    - a ydyn nhw'n rhan o gynllun 'ymbarél' mwy (h.y. y Warant Pobl Ifanc)
    - rhestr yn manylu ar y prif ddarparwyr ar gyfer pob un o'r rhaglenni, gan gynnwys eu gwerthoedd contract ar gyfer 2025-26.

**Dysgu seiliedig ar waith**

- Y canlyniad gwirioneddol yn 2023-24 a’r rhagolwg ar gyfer alldro 2024-25 ar gyfer y rhaglen brentisiaeth;
- Manylion unrhyw drosglwyddiadau o’r Weithred Dysgu Seiliedig ar Waith 2025-26 i ariannu Gradd-Brentisiaethau, gan gynnwys trosglwyddo rhagweladwy yng nghyllideb atodol gyntaf 2025-26;
- Manylion unrhyw gyllid a ddefnyddiwyd yn 2024-25 a rhagolwg o’r cyllid sydd i'w ddefnyddio yn 2025-26 i
    - Ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd; ac/neu
    - adolygu'r fframweithiau prentisiaeth presennol.
- Manylion yr holl gyfyngiadau rheoli galw a chamau gweithredu i reoli galw am brentisiaethau sydd ar waith, neu a gaiff eu cyflwyno ar gyfer y rhaglen brentisiaeth yn ystod 2025-26.

**Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol / Ymgysylltu â Chyflogwyr:**

- Manylion yr arian sydd i'w ddarparu i bob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac at ba bwrpas.

**Partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg:**

- Manylion y dyraniadau sy’n ymwneud â gweithredu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), ac a ydynt wedi newid o’r rhai a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd i lywio’r gwaith o graffu ar y Bil.
- Manylion sut y bydd dyraniadau yn y gyllideb ddrafft yn cefnogi mentrau gwaith teg ac yn helpu gyda mwy o daliadau’r Cyflog Byw Gwirioneddol.

- Manylion unrhyw ddyraniadau a wnaed i gefnogi gweithrediad y strategaeth Gweithio o Bell.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID/CC/MA/5032/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd

SeneddEconomi@senedd.cymru

29 Hydref 2024

Annwyl Paul

Yn dilyn fy llythyr ar 30 Ebrill 2024. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi cydsynio i'r Gweinidog Gwladol osod Rheoliadau Symud Nwyddau (Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr) (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Darpariaeth Ddarfodol a Diwygiadau Amrywiol) 2024 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma: https://senedd.cymru/media/kutflqgz/ws-ld16766-w.pdf

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn er mwyn gweithredu'r cerrig milltir ar gyfer Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM). Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 28 Hydref 2024 gyda dyddiad cychwyn a fydd yn amodol ar gymeradwyo'r OS drwy benderfyniad gan ddau Dŷ Senedd y DU.

Roedd yr offeryn hwn i fod i osod ar 22 Mai; fodd bynnag, cyhoeddwyd yr Etholiad Cyffredinol y diwrnod hwnnw a arweiniodd at saib i'r amserlen.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID/CC/MA/5295/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

31 Hydref 2024

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygio) 2024 ('Rheoliadau 2024').

Rydym wedi cael llythyr gan yr Arglwydd Douglas-Miller, y Gweinidog dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn rhychwantu Cymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir o dan:

- adrannau 14(1), (2), (3), (4)(a), (b), (e) a (7), 15(1) a 20(1) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

Mae'r pwerau a roddir gan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn cael eu defnyddio i ddiwygio pwerau sy'n bodoli eisoes yn Rheoliad (UE) 2017/625 ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol" neu "OCR") fel y gellir gwneud offerynnau pellach yn ddiweddarach. Nid yw'r rhan fwyaf o'r diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2024 yn cael effaith polisi hyd nes bod y pwerau diwygiedig yn cael eu harfer yn ddiweddarach. Bydd y polisïau canlynol, fodd bynnag, yn cael effaith o'r dyddiad dod i rym:

- Caniatáu i Arolygwyr Iechyd Planhigion gynnal profion diagnostig yn y Safle Rheolaethau'r Ffin yn hytrach na phrofi mewn labordai swyddogol.
- Darparu y gall pwerau gorfodi ganiatáu adennill cost dyledion a chasgliadau pan nad yw ffioedd wedi'u talu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rheoliadau 2024 yn darparu'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer cyflwyno agweddau pellach ar Fodel Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) gan gynnwys y cynlluniau Masnachwr Dibynadwy ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid a Statws Gweithredwr Awdurdodedig ("AOS") ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion.

Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio ac yn disodli darpariaethau yn y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol a deddfwriaeth berthnasol arall i ddarparu sail ddeddfwriaethol hirdymor i'r BTOM y tu hwnt i'r ddibyniaeth ar y Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP) ar gyfer nwyddau perthnasol, ac i sicrhau y gellir diweddaru'r BTOM mewn ymateb i risg fel y bo’n ofynnol trwy ganiatáu i newidiadau gael eu gwneud yn weinyddol.

Nid yw'r Rheoliadau yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt o eiddo Llywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r offeryn hwn fod yn gymwys i Gymru, er mwyn sicrhau cyfundrefn iechydol a ffytoiechydol gydlynol a chyson ar gyfer nwyddau sy'n cael eu mewnforio i Brydain Fawr; i ddiogelu bioddiogelwch a sicrhau bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal yng Nghymru. Rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

1 Tachwedd 2024

Annwyl Lywydd

**Terfynau amser adrodd ar gyfer memoranda cydsyniad deddfwriaethol**

Rydym wrthi'n ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr a'r Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, y mae eu dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 15 Tachwedd 2024 a 22 Tachwedd 2024 yn y drefn honno.

O ystyried natur y Biliau a'r memoranda cysylltiedig, rydym yn cymryd tystiolaeth gan Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar y materion hyn ar 4 Tachwedd 2024.

Rydym hefyd wedi cymryd tystiolaeth gan Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ar femorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig), y mae ei ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 22 Tachwedd 2024. Yn ystod y sesiwn honno, nododd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol.

Rydym hefyd yn cymryd tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ar 18 Tachwedd 2024 ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Hawliau Rhentwyr, y mae ei ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 29 Tachwedd 2024.

Mae'n annhebygol y byddwn yn gallu bodloni'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiad y cyfeirir atynt uchod oherwydd yr angen i gymryd tystiolaeth o ganlyniad i faterion pwysig egwyddor gyfansoddiadol a godir ym mhob achos.

Felly, byddem yn ddiolchgar i gael estyniadau i'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y memoranda uchod er mwyn galluogi ein hadroddiadau i ystyried y sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol a thebygolrwydd memorandwm atodol yn achos y memorandwm ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig). O ystyried lle y mae’n ymddangos bod Biliau’r DU yng nghylch deddfwriaethol Senedd y DU, rydym o'r farn bod cwmpas digonol i estyniadau gael eu rhoi.

Yn y dyfodol, awgrymwn y gallai dull gwahanol o osod terfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiad fod o fudd i bwyllgorau'r Senedd a Llywodraeth Cymru. Rydym yn credu y gallai fod gwerth gosod terfynau amser cychwynnol ar gyfer cyflwyno adrodd i gyd-fynd â’r dyddiad terfynu craffu tebygol yn Nhŷ cyntaf Senedd y DU y cyflwynir y Bil perthnasol iddo.

Ni fyddai defnyddio’r dull hwn yn effeithio ar gyflwyno’r cynigion cydsyniad deddfwriaethol perthnasol gan mai dim ond hanner ffordd drwy’r broses ddeddfwriaethol y byddai’r Biliau yn Senedd y DU. Byddai hefyd yn lleihau’r angen i bwyllgorau’r Senedd ofyn am estyniadau gan y Pwyllgor Busnes i derfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, ond ni fyddai'n atal y pwyllgorau hynny rhag cyflwyno adroddiad yn gynharach pe baent am wneud hynny. Yna gallai’r terfynau amser hyn ar gyfer cyflwyno adroddiad gael eu hestyn yn awtomatig gan y Pwyllgor Busnes, os bydd memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol yn cael eu gosod sy’n codi’n ddiweddarach yng nghyfnodau diwygio’r Tŷ cyntaf neu gyfnodau cynharach yr ail Dŷ.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai’r Pwyllgor Busnes ystyried yr awgrym hwn. Os yw’n cytuno, efallai y bydd hefyd am ystyried gosod terfynau amser newydd ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer yr holl femoranda cydsyniad deddfwriaethol presennol er mwyn adlewyrchu'r dull hwnnw.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip. Mae copi o’r llythyr hefyd yn cael ei anfon at gadeiryddion pwyllgorau’r Senedd sydd hefyd yn craffu ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol y cyfeiriwyd atynt uchod: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Paul Davies AS,
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

4 Tachwedd 2024

Annwyl Paul,

Deiseb P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 14 Hydref a thrafododd y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Linda Joyce-Jones.

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ddiweddar a ddaeth i law gan y deisebydd, academyddion a Cats Matter. At hynny, tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at wybodaeth a gafwyd gan Unite ynghylch y sefyllfa gyda Valley Vets.

Diolchodd yr Aelodau i'r deisebydd am y gwaith a wnaed ar y mater hwn, a chytunwyd i gadw golwg ar y ddeiseb hyd nes y daw ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i ben. Disgwylir i'r ymchwiliad ddod i ben ym mis Mai.

Nododd y Pwyllgor hefyd gais y deisebydd i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ystyried ymchwiliad i'r mater fel rhan o'i flaenraglen waith, a chytunodd i ysgrifennu atoch i drosglwyddo'r cais, gan nodi gohebiaeth flaenorol eich Pwyllgor dyddiedig 9 Rhagfyr 2022.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma:
https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=39835

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon unrhyw ymateb drwy e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir,

Carolyn

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros New**
**Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Char**
**and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-HIDCCRA-5473-24

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Cc: Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

5 Tachwedd 2024

Annwyl Paul,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 22 Awst, gallaf gadarnhau fy mod wedi rhoi caniatâd i Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ymarfer pŵer llunio is-ddeddfwriaeth cydamserol mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gosodwyd Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) (Rhif 2) 2024 ar 16 Hydref ac mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Gellir gweld datganiad ysgrifenedig yn hysbysu'r Senedd yn y ddolen ganlynol.

WS-LD16760 - Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2024

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a byddaf yn ysgrifennu mewn termau tebyg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Materion Gwledig.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Environment, Food and Rural Affairs Committee**

Wednesday 6 November 2024

**Chair Paul Davies MS**
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**
**Cardiff**
***By email***

**Subject: Inter-Parliamentary engagement**

Dear Paul,

I am writing to you in your capacity as Chair of the Senedd Cymru Economy, Trade and Rural Affairs Committee.

As the recently elected Chair of the House of Commons Environment, Food and Rural Affairs Committee, one of my priorities is to promote greater engagement with the devolved legislatures, and in particular corresponding committees, in areas of shared policy. Our committees share some similar interests, scrutinising their respective administrations' policy and performance with regards to the rural economy, agriculture and fisheries.

I am hoping to arrange a meeting with the Chairs and Conveners of key partner committees from the devolved legislatures to this end and would value your attendance if you are available. I have also written to the Chair of the Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee regarding this. My Clerks will be in touch to coordinate diaries.

Yours sincerely,

Alistair

**Rt Hon Mr Alistair Carmichael MP**
**Chair, Environment, Food and Rural Affairs Committee**

House of Commons
Palace of Westminster
London
SW1A 0AA

**efracom@parliament.uk**
**+44 (0)20 7219 1119**
**Social: @CommonsEFRA**

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0318/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

7 Tachwedd 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cael ei gynnal ar 18 Tachwedd.

Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl i’r cyfarfod ganolbwyntio ar Gyllideb Llywodraeth y DU a dyraniadau cyllid, rhaglen waith y Grŵp Rhyngweinidogol, yr economi gylchol, ffiniau a phrinder gweithwyr o fewn y sector amaethyddiaeth a bwyd. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trafodaethau, a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Aneurin Bevan Health University Health Board**
**Response to Welsh Government Consultation Foundational Economy**
**November 2024**

Aneurin Bevan University Health Board is the operational name of Aneurin Bevan University Local Health Board. The Health Board was established on the 1st October 2009 and covers the areas of Blaenau Gwent, Caerphilly, Monmouthshire, Newport, and Torfaen.

The Health Board employs over 14,000 staff, two thirds of whom are involved in direct patient care. There are more than 250 consultants in a total of over 1000 hospital and general practice doctors, 6,000 nurses, midwives, allied professionals and community workers.

This response sets out replies to specific questions posed by the Economy, Trade and Rural Affairs Committee as part of its inquiry into the foundational economy.

1. **To what extent has the Welsh Government embedded support for the foundational economy into its overall approach to economic development? What further steps should it take to do this?**

Support for the foundational economy has solid foundations through various Welsh Government policy commitments, the foundational economy challenge fund and efforts to leverage local public sector procurement to support local economies.

Further steps should consider capacity to deliver at scale and with impact, too often schemes are based on pilot approaches which may be successful but are limited in impact as do not have the support to scale and spread and become sustainable. Steps to support the scale and spread of initiatives and a sustainable commitment need to be given consideration.

Likewise, integration into wider policy decisions which impact high value investment may be helpful.

Enabling opportunities for public sector organisations to work across organisational boundaries, along with supporting capacity, capability and sustainable funding options would have a direct impact on embedding the foundational economy. Policies and decision making that drive up the value of public sector workers withing the economy in relation to status, working conditions and career development are also issues that need addressing.

2. **Given the cross-portfolio nature of the foundational economy, how should the Welsh Government create a co-ordinated approach to mainstreaming support for foundational economy sectors across government?**

A co-ordinated approach would be beneficial in a number of areas given the complexity and diversity of government priorities, objectives, and ambitions. Mainstreaming the principles of the foundational economy into policy development and evaluation of impact of those policies would support this.

This could be enabled through a multi-departmental approach along with other considerations:

- A joined-up approach to workforce development- we have experienced challenges in creating joint apprenticeships or joint training pathways with partners. A coordinated approach to workforce development across health, care, education and training may be beneficial.

- Government support for local community engagement and voluntary sector may also be beneficial in developing stakeholder engagement. Increasing visibility and communication amongst the general public in relation to what the foundational economy is, how communities, local business and voluntary organisations can be involved and contribute may also be of benefit.

- Developing local partnerships with local producers, suppliers and other large employers outside of the public sector.

The above may be practically supported by providing:
Creating, enabling and enhancing opportunities for collaborations, joint enterprises between local suppliers across Wales.
National approach to understanding a more detailed profile of the local demographics of census information. This could be elevated to understand training, education and employment opportunities for those working in most deprived areas with a view to develop a coordinated to drive investment in training, education and employment schemes.

3. **Which of the Welsh Government's foundational economy policy initiatives have been most successful, and why? Which have worked less well, and why?**

In relation to our experience a number of successes have been linked to policy initiatives in relation to fair work. These have enabled us to develop a now

established apprenticeship offer, ability to expand the work with local communities and education providers in relation developing work experience, intern placements, volunteer to career placements and joint training offers bespoke to our needs. Likewise success in local procurement and initiatives to support the decarbonisation agenda. The Health Board's percentage spend with Welsh Suppliers increased from 49.88% in Apr '23 to 55.94% on Mar 24. In addition, we are aware of positive examples across Wales including Velindre NHS Trust's Food Mission, Swansea Bay University Health Board's Green Group including Greener Theatres, Community Supported Agriculture at Morriston Hospital, Cwm Taf University Health Board's Healthy Housing partnership

Considerations to increased and or more sustainable funding solutions, in place of limited or short-term funding could support our ability to stretch our ambition with initiatives and supporting our ability to scale progress. Likewise, support to overcome barriers between public sector organisations and partners to enable joint working which is often hampered by bureaucracy, different funding models and different terms and conditions.

4. **What examples of best practice exist in different foundational economy sectors and places within or beyond Wales? How could the Welsh Government better support partners to deliver best practice, and to scale it up where appropriate?**

Some positive examples include the Buurtzog Model withing community nursing which was trialled within the Heath Board previously. Also we are aware of local authority procurement successes with in Preston City Council and the Cleveland model in the US which where anchor institutions support local community owned co-operatives.

In many cases, programmes of work and initiatives in support of the foundational economy aims and ambitions are facilitated by short term funding and/or bespoke pilot programmes. These very often operate organisational silos and with short term contracts and limited budgets. On occasion they can also be limited by defined outcomes required by funding streams which provide limited flexibility or ability to be creative.

Consideration to sustainable ways to support, co-ordinate and enable long term funding, capacity and capability across organisational and public sector organisation boundaries to scale up successful pilots or proven initiatives could make a significant and long-lasting impact to the many good examples being carried out across Wales.

This could be facilitated by networks to share best practice, community networks and more support for community social enterprises as well as designing policies that support long term sustainability.

5. **What progress has been made in using procurement to strengthen the foundational economy since our predecessor Committee looked at this issue in 2019? What further actions are required to deliver greater progress, and what innovative examples of best practice could be built on?**

   Applying the social value approach to procurement has supported awards being made to local and sustainable companies also supported by simplifying the process for SMEs.

   Expanding this approach and including expanding support and tools to increase capability and capacity may support growing this approach. Developing as a Marmot Region will be important in relation to examples of good practice to support a wide range of improvements to health improvement addressing fair work, sustainable communities and tackling health inequalities. Building on the existing partnership working arrangements that exist and opportunities for regional working will be essential. Government policies and initiatives which support, promote and make improve ways of working in this fled will enhance and embed any progress that can be made.

   Supporting some of the work underway by NHS Wales finance colleagues in developing how costs are established and how a Social Cost-Benefit Analysis can be undertaken and become part of service development proposals may be an opportunity for development.

6. **How effective have the Welsh Government's actions to deliver fair work in foundational economy sectors been? What further steps should it take within its devolved powers to progress this agenda, and how can it work with the UK Government to drive improvements in non-devolved areas?**

   Welsh Governments actions in support of Real Living Wage, commitment to security and flexibility through work and support for foundational employers has provided a good foundation for the Fair Work agenda.

   Many of roles and initiatives remain in areas of low wages and therefore a review of this alongside ongoing commitment to initiatives like apprenticeships, fair wage policies, and professional development opportunities specific to

foundational sectors would attract and retain talent, benefiting sectors like social care, education, and housing.

Partnerships with unions, training providers, and employers could support a robust agenda that tackles workforce challenges. The NHS Wales Finance Academy’s approach which considers competencies in line with procurement for benefit of the foundational economy may be suitable to adapt and share.

It will be interesting to see the impact of Workers Rights Bill and how the UK and Welsh Governments respond to agency providers and employers deploying zero hours contracts connected with focus on Fair Work and any impact this may have on the foundational economy and encouraging a wide range of employers to open up apprenticeships, flexible working routes, etc.

Further consideration is required to address attraction to a range of public sector roles. For instance, NHS is the largest employer in Wales. Most young people seem to consider that options are limited, for example hospitals have doctors and nurses instead of appreciating there are about 300 different occupations and careers available with opportunities for local , well paid jobs. We raise awareness by engagement with schools and colleges and also other ways, such as the VR films.

New and creative ways to increase our capacity and ability to create, fund and sustain programmes that develop and educate local people for skilled, professional and highly paid roles couple with terms and conditions that support long term retention will support our retention of key skills, e.g. doctors, nurses, social workers.

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Yr Economi Sylfaenol

14 Tachwedd 2024

Mae'r Economi Sylfaenol yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ac mae'n rhan allweddol o genhadaeth Economaidd gyffredinol Llywodraeth Cymru.

Mae'r papur hwn yn rhoi rhagor o dystiolaeth ar gyfer ymgynghoriad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar yr Economi Sylfaenol.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad....3**

**2. Ymgorffori'r Economi Sylfaenol mewn Datblygu Economaidd .... 4**

**3. Prif ffrydio'r Economi Sylfaenol ar draws y llywodraeth ....6**

**4. Agweddau ar yr Economi Sylfaenol sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus....8**

**5. Yr arfer gorau yn sectorau'r Economi Sylfaenol....10**

**6. Defnyddio Caffael i gryfhau'r Economi Sylfaenol ....12**

**7. Gwaith Teg a'r Economi Sylfaenol....13**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Y gwasanaethau a'r cynnyrch yn yr Economi Sylfaenol (ES) sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol hynny y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt, ac sy'n ein cadw'n ddiogel ac yn iach i ni allu byw bywyd da. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, adeiladu, ynni, bwyd, tai, manwerthwyr y stryd fawr, twristiaeth a thrafnidiaeth i gyd yn enghreifftiau o'r ES.

**2.** Mae'r ES yn rhan bwysig o economi Cymru. Yn 2023, roedd yn cynnwys 65,000 o fusnesau oedd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW (60% o'r holl fusnesau yng Nghymru), yn cyflogi dros 637,000 o bobl (51% o'r gweithlu) ac yn cyfrif am £80.8bn (47%) o holl drosiant Cymru.

**3.** Sectorau'r ES sy'n gyfrifol am fwyafrif y busnesau yn ardal pob awdurdod lleol heblaw am Gaerdydd. Mae llawer o'r mentrau hyn yn fusnesau bach neu ficro. Byddwn yn canolbwyntio ar ddeall y busnesau hyn yn well ac yn nodi ble mae cyfle i fentrau llai dyfu a dod yn fentrau canolig eu maint, gan gynnig swyddi da yn eu cymunedau.

**4.** Am y rheswm hwn, mae cynyddu a chryfhau'r ES yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae nifer o brosiectau yn cael eu datblygu gyda'r nod o gynyddu effaith prosesau caffael; cynyddu capasiti a gwella galluoedd busnesau lleol; a rhoi pobl leol ar lwybrau sy'n arwain at swyddi da.

**5.** Rydym wedi creu nifer o adnoddau i helpu i godi proffil yr ES a chael pob rhan o'r llywodraeth a rhanddeiliaid i'w deall yn well a chael mwy i gymryd rhan ynddi. Rydym wedi datblygu modiwl dysgu ar-lein a thudalennau newydd ar y we a'r fewnrwyd, storfa ganolog a deunydd ar y we sy'n ymwneud â hyfforddiant ES ac rydym yn creu animeiddiad i egluro dulliau, nodau a metrigau'r ES a'i chysylltiadau â'r nodau llesiant.

**6.** Rhwng 2019 a 2023, mae cyfanswm y busnesau ES sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW wedi cynyddu 4%, mae nifer y gweithwyr wedi cynyddu 1% ac mae trosiant wedi cynyddu 5%.

## 2. Ymgorffori'r Economi Sylfaenol mewn Datblygu Economaidd

**7.** Amcan ein Cenhadaeth Economaidd yw datblygu economi sy'n pontio'n deg i ddyfodol cynaliadwy, gyda gwaith teg yn sail i'r cyfan. Mae meithrin yr ES yn rhan annatod o'r genhadaeth hon.

**8.** Mae datgarboneiddio cymdeithas a symud tuag at bontio teg ac economi gynaliadwy yn her fawr ond hefyd yn gyfle enfawr.

**9.** Mae gwaith ar y gweill i weld sut y gallwn sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar yr ES wrth i ni roi ar waith ein cynlluniau i fuddsoddi mewn twf gwyrdd, gan gynnwys Gwynt ar y Môr Arnofiol (FLOW), datgarboneiddio trafnidiaeth a darparu tai sero net a charbon isel ledled Cymru.

**10.** Cynhaliwyd ymarfer cychwynnol i weld i ba raddau y gallai'r gadwyn gyflenwi gyfrannu at gynnal y rhaglen FLOW. Mae comisiwn yn cael ei ddatblygu i weld pa ymyriadau sydd eu hangen i helpu i wneud y mwyaf o'r gadwyn gyflenwi leol yn FLOW yn y tymor byr, canolig a hir.

**11.** Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Trafnidiaeth Cymru i asesu'r cyfleoedd i fusnesau'r ES wrth ddatgarboneiddio fflyd fysiau Cymru. Bydd cyfleoedd i gontractwyr lleol ddatblygu'r seilwaith gwefru a chael y pŵer i'r gorsafoedd bysiau. Mae'r cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â chaffael bysiau newydd ac ail-bweru'r fflyd bresennol yn cael eu harchwilio. Disgwylir cyhoeddi adroddiad a chamau nesaf erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

**12.** Mae grŵp o 23 o Landlordiaid Cymdeithasol wedi comisiynu 15 o ddyluniadau safonol ar gyfer darparu cartrefi sero net. Bydd y cartrefi hyn yn cael eu hadeiladu gan ddefnyddio pren - mwy a mwy ohono'n bren o Gymru – a thrwy gadwyn gyflenwi fer, cryf a chynaliadwy. Mae cynllun braenaru wedi'i ddechrau i helpu 20 o gontractwyr i ennill tystysgrif PAS2030:2023, un o ofynion cael cymryd rhan mewn rhaglenni fel y Rhaglen Ôl-Osod er mwyn Optimeiddio (ORP). Mae prinder contractwyr sy'n meddu ar y dystysgrif PAS2030:2023 a bydd y cynllun yn helpu i lenwi'r bwlch hwnnw ac yn ein helpu i ddatblygu ffyrdd o feithrin gallu ledled Cymru yn y dyfodol.

**13.** Mae cefnogi'r ES yn cael ei brif ffrydio yng ngwasanaeth craidd Busnes Cymru. Ym mis Medi a mis Hydref, cynhaliwyd dwy Expo am yr ES, y naill yn Abertawe a'r llall yn Llandudno. Cofrestrodd dros 1,100 o gynrychiolwyr i ddod i'r ddwy Expo a chael cyfle i gwrdd â sefydliadau arddangos (o'r sectorau

cyhoeddus a phreifat) a oedd â chontractau i'w llenwi ac a oedd am weld eu cadwyni cyflenwi'r ES leol yn cynyddu. Gwnaeth Busnes Cymru rannu manylion contractau arfaethedig, gwerth sawl biliwn o bunnau cyn cynnal yr Expos. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hadolygu i bennu gwir werth posibl yr ES. Defnyddir yr adborth a gwersi a ddysgwyd i helpu i benderfynu sut i gynnal ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

# 3. Prif ffrydio'r Economi Sylfaenol ar draws y llywodraeth

**14.** Mae gennym dîm bychan yn yr is-adran Trawsnewid Diwydiannol a'r Economi Sylfaenol sy'n canolbwyntio ar yr ES. Mae'r tîm ES yn gweithio fel uned bontio i helpu i wreiddio egwyddorion ES ar draws y llywodraeth, yn ogystal â chynnal ystod o brosiectau.

**15.** Mae'r gwaith trawslywodraethol hwn yn helpu i feithrin yr ES.

**16.** Mae rhaglen ES Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweld caffael gyda busnesau Cymru yn cynyddu i 44%, i fyny o 26% yn 2019 ac mae byrddau iechyd yn targedu gweithwyr difreintiedig ac yn cynnig llwybrau i waith.

**17.** Mae'r ORP Tai ac Adfywio yn dylanwadu ar ddatblygiad cadwyni cyflenwi a sgiliau lleol. Trwy gyllid ES, mae pum landlord cymdeithasol cofrestredig wedi cael help i gael hyd i dros 500 o gontractwyr newydd i helpu i wneud y gwaith hwn. Mae landlordiaid yn cydweithio i ddeall sut i ddefnyddio'r cadwyni cyflenwi lleol i ddarparu cartrefi Sero-Net. Mae tîm yr ES yn helpu'r Panel Buddsoddi Cenedlaethol mewn Adfywio i asesu ceisiadau am gyllid grant.

**18.** Mae cyfleoedd yng nghadwyn gyflenwi datgarboneiddio trafnidiaeth yn cael eu harchwilio.

**19.** Mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yn rhoi cyngor ac yn gweithio ar draws y sector adeiladu i gryfhau cysylltiadau â chontractwyr a chleientiaid. Mae cynllun gwaith yn cefnogi'r prif flaenoriaethau o ran yr ES, gan gynnwys rhestru'r contractau sydd ar ddod.

**20.** Mae'r ES yn cael ei phrif ffrydio yng ngwasanaeth Busnes Cymru. Mae'r Gronfa Paratoi at y Dyfodol, sy'n werth £20m ac a lansiwyd ym mis Ebrill ar gyfer microfusnesau a busnesau bach a chanolig yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden yn darparu cyllid i helpu i leihau costau rhedeg ac i baratoi at y dyfodol.

**21.** Mae rhaglenni cyfalaf a refeniw yr Is-adran Bwyd yn helpu busnesau bach a chanolig a microfusnesau gan fwyaf i dyfu'n gynaliadwy. Mae'r busnesau hyn yn cynnig amrywiaeth o swyddi, gyda mwy nag 80% ohonynt yn cael Cyflog Byw neu'n uwch.

**22.** Cefnogir twristiaeth mewn sawl ffordd, trwy fuddsoddi cyfalaf a chydweithio'n glos â'r sector i wireddu ei blaenoriaethau.

**23.** Cwblhawyd cronfa newydd o ddata sylfaen ar yr Economi Sylfaenol ym mis Awst. Mae'r gronfa hon yn cael ei hasesu i'n helpu i benderfynu ar ein blaenoriaethau ar gyfer prif ffrydio'r ES ar draws y llywodraeth.

# 4. Agweddau ar yr Economi Sylfaenol sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus

**24.** Mae ymgorffori'r ES ym maes caffael wedi creu manteision pendant i gadwyni cyflenwi a gweithwyr lleol.

**25.** Mae contractau cydweithredol Cyflenwadau Swyddfa a Deunyddiau Glanhau Llywodraeth Cymru wedi gweld y prif gontractwr yn datblygu nifer o raglenni dan faner Llesiant Cymru. O ganlyniad, gwelwyd dros 500 o weithwyr tan anfantais o Gymru yn cael hyd i waith drwy gynllun ailgylchu gwastraff cyfrinachol a ddarparwyd drwy'r cytundeb cyflenwadau swyddfa. Cafodd y cynllun ei ddatblygu i ddefnyddio cardfwrdd sefydliadau i'w rwygo a'i werthu fel deunydd gwely ar gyfer anifeiliaid.

**26.** Mae rhyw 220 o gerbydau trydan, gwerth cyfanswm o £3.9 miliwn, wedi cael eu harchebu drwy drefniant caffael cydweithredol dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Dyfarnwyd y contract i BBaCh o Gymru a bydd yn darparu £2.8 miliwn o werth cymdeithasol ehangach trwy ddefnyddio delwyr lleol a hyrwyddo sgiliau bywyd ac ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth ymhlith plant ysgolion cynradd.

**27.** Disgwylir i'r contract Cartrefi Cynnes Cymru a ddyfarnwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ddarparu £245 miliwn o werth cymdeithasol ychwanegol dros saith mlynedd trwy dreialu ffordd newydd o weithio. Mae hyn yn seiliedig ar greu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi i amrywiaeth o gyflenwyr adeiladu yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau ôl-osod tai.

**28.** Rhoddwyd cyllid ES i Bartneriaeth Caffael Cydwasanaethau GIG Cymru i wreiddio ystyried gwerth cymdeithasol wrth wneud penderfyniadau caffael. O ganlyniad, enillodd busnesau Cymru £40m o gontractau ychwanegol trwy GIG Cymru.

**29.** Mae cynnydd mawr yn y bwyd o Gymru sy'n cael ei brynu gan Castell Howell ar gyfer eu prydau ysgol - cynnydd o 173% (£854k yn 2021 o'i gymharu â £2.3m ar hyn o bryd). Mae hyn i raddau helaeth oherwydd canllawiau newydd ar gyfer caffael bwyd, sy'n disgrifio sut i gymhwyso egwyddorion yr ES wrth ymdrin â chontractau bwyd, 'Harnessing the Power of the Public Plate'. Defnyddiwyd y canllawiau'n llwyddiannus gan Gyngor Caerffili ar gyfer eu Fframwaith Bwyd De Cymru, gyda'i raniad ansawdd/prisiau o 70/30 a'i lot Cymreig newydd. Enillwyd 100 o'r 150 lot gan Castell Howell, gan ddiogelu cyflenwadau a chadw arian yng Nghymru.

**30.** Ni wnaeth yr ymdrechion i gryfhau'r sector gofal trwy raglenni recriwtio wedi'u targedu arwain at y canlyniadau disgwyliedig. Er bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheoli'r prosiect, ni welwyd yr enillion disgwyliedig o ran recriwtiaid newydd i'r sector gofal. Roedd y farchnad recriwtio yn gystadleuol iawn a rhwystrodd hynny'r prosiect rhag gwireddu ei amcanion.

**31.** Bu llai o gydweithio â Chymuned Ymarfer (CoP) yr ES ers cwtogi'r cyllid ar gyfer y prosiect. Mae'r CoP Bwyd yn parhau i fod yn weithgar iawn gyda nifer o brosiectau wedi'u hariannu. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gydweithio o'r newydd â sectorau eraill.

# 5. Yr arfer gorau yn sectorau'r Economi Sylfaenol

**32.** Mae'r sector bwyd yn arbennig yn dilyn y rhaglen ES, diolch yn bennaf i'r cyllid a neilltuwyd i 15 o brosiectau arloesol ar gyfer hybu garddwriaeth a gwneud cyflenwadau bwyd yn fwy sicr. Mae rhai manylion isod gyda rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1.

**33.** Mae prosiect 'Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion' o dan ofal Synnwyr Bwyd Cymru yn mynd i'r afael â'r ffaith bod 94% o'r cynnyrch garddwriaeth a ddefnyddir yn ysgolion Cymru yn dod o'r tu allan i Gymru. Mae wyth tyfwr newydd wedi'u mabwysiadu, i gyflenwi tua 40 tunnell o lysiau organig i ysgolion mewn chwe awdurdod lleol. Os aiff y gwaith hwn yn ei flaen am y pum mlynedd nesaf, mae Synnwyr Bwyd Cymru yn rhagweld ei ehangu i 100 o dyfwyr, gan greu gwerthiant o £1.5m y flwyddyn, sy'n cyfateb i werth £12.4m o fuddiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac arbed 60+ tunnell o CO2 bob blwyddyn. Gallai cyflenwi cynnyrch garddwriaeth o Gymru i bob ysgol gynradd yng Nghymru arwain at bron £15m o werthiant a chynnal llawer o swyddi.

**34.** Mae Castell Howell yn gweithio gyda thyfwyr lleol i gyflenwi cynnyrch Cymreig i ysgolion, yn hytrach na chynnyrch wedi'i fewnforio a'i rewi, ac i ystyried sut i estyn oes cynnyrch tymhorol. Maent hefyd yn datblygu ystod newydd o brydau aml-ddogn maethlon gan ddefnyddio mwy o gig a llysiau o Gymru, fel peli cig, saws tomato, pizza a sglodion.

**35.** Mae'r Clwb Cookalong wedi helpu i feithrin sgiliau coginio dros 700 o blant, teuluoedd ac athrawon yn Sir Fynwy a Chaerffili ac enillodd wobr y Busnes Cymunedol Lleol gorau yng Ngwobrau Bwyd a Diod Cymru 2024. Maen nhw hefyd wedi gweithio gyda Maint Cymru a chyngor Sir Fynwy ar fwydlenni di-ddatgoedwigo.

**36.** Mae Larder Cymru yn gweithio gyda 6 awdurdod lleol yng Nghymru a chyfanwerthwyr / cynhyrchwyr i adolygu fframweithiau cyflenwi bwyd a bwydlenni i ddatblygu bwydlen newydd sy'n ymgorffori mwy o gynnyrch Cymreig a chyflenwyr o Gymru.

**37.** Dilynir yn agos dull Malmo o gyflenwi mwy o fwyd organig a gynhyrchir yn lleol ar gyfer prydau ysgol. Bydd astudiaeth o'r gwaith hwn yn cael ei chynnal yn ddiweddarach eleni i helpu'r cynllun Prydau Ysgol am Ddim i Bawb.

**38.** Mae cydweithrediad y sector tai i gynnal y rhaglen sero net yn enghraifft wych o fesur y galw ac o roi arwydd clir o fwriad. Bydd hynny'n rhoi hyder i fusnesau fuddsoddi mewn sgiliau a gallu. Gallai cynyddu hynny a'i ledaenu gyd-fynd â'r gwaith i roi mwy o amlygrwydd i'r cynlluniau adeiladu sydd ar y gweill ar gyfer y dyfodol a'u deall yn well.

# 6. Defnyddio Caffael i gryfhau'r Economi Sylfaenol

**39.** Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ei rheoliadau ei hun o dan Ddeddf Caffael 2023. Bydd cyflenwyr ES yn elwa o dryloywder well, dyletswydd i nodi a datrys rhwystrau i fusnesau bach a chanolig rhag cymryd rhan, a'r gofyn i dalu'r gadwyn gyflenwi yn brydlon o fewn 30 diwrnod. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau sydd eu hangen i ddod â'r dyletswyddau caffael yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i rym. Mewn sectorau fel adeiladu a bwyd, gall caffael ddod â budd i'n heconomïau lleol, a chyfrannu at gyflawni nodau llesiant, er enghraifft drwy fynnu bod safonau gwaith teg ac amgylcheddol yn cael eu bodloni.

**40.** Mae swyddogaeth Llywodraeth Cymru o ran Masnach a Chaffael wedi rhoi arweiniad i weddill y sector cyhoeddus, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol yr ES fel a ddisgrifir ym Mhennod 4.

**41.** Gyda chymorth cyllid ES Llywodraeth Cymru, mae GIG Cymru wedi ymgorffori'r ES a gwerth cymdeithasol yn ei broses gaffael, gan olygu bod busnesau lleol wedi ennill £40m o gontractau a oedd gynt wedi mynd allan o Gymru.

**42.** Mae canllawiau caffael bwyd, 'Harnessing the Power of the Public Plate', a gynhyrchwyd yn 2022, wedi cyfrannu'n llwyddiannus at sicrhau cynnydd o 173% yn y bwyd o Gymru a brynir gan Castell Howell ar gyfer prydau ysgol (£854k yn 2021 o'i gymharu â £2.3m ar hyn o bryd). Priodolir y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn i'r ffaith bod Cyngor Caerffili wedi dilyn canllawiau Fframwaith Bwyd De Cymru, a ddyfarnwyd ym mis Ebrill ac a ddefnyddir gan 15 cyngor. Mae'r tendr bwyd wedi canolbwyntio fwyfwy ar ansawdd a gwerth yn lle pris, gyda rhaniad ansawdd / pris o 70/30, ac ar ymgorffori gwerth cymdeithasol; cafwyd lot Cymreig newydd am y tro cyntaf, i roi dewis o fwyd lleol i gynghorau. Allan o 150 lot, enillodd Castell Howell, cyfanwerthwr o Gymru, 100 ohonynt, gan ddiogelu'r cyflenwad a chadw arian yng Nghymru.

**43.** Mae'r tri fframwaith adeiladu rhanbarthol awdurdodau lleol i gyd yn cynnwys cymalau'n ymdrin â gwerth cymdeithasol, gan gynnwys ymrwymiadau i'r ES, gan gefnogi defnyddio contractwyr lleol.

# 7. Gwaith Teg a'r Economi Sylfaenol

**44.** Mae gwaith teg yn hanfodol i'r ES am ei fod yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd a chynaliadwyedd y nwyddau a'r gwasanaethau hanfodol y mae cymunedau'n dibynnu arnynt.

**45.** Mae lefelau cyflog teg, contractau sicr, amodau gwaith diogel a chynhwysol ac aelodaeth o undebau llafur hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar fywydau a bywoliaeth gweithwyr yn yr ES.

**46.** Mae'r ES yn wynebu heriau sylweddol o ran gwaith teg. Mae gormod o gyflogau isel, dim digon o swyddi sicr ac oriau gwaith rhagweladwy ac ni chynigir digon o lais a chynrychiolaeth drwy undebau llafur.

**47.** Rydym wedi ymrwymo i gryfhau'r ffocws ar wella amodau gwaith yn yr ES. Mae hyn yn gofyn am ymdrech ar y cyd gan y Llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur. Ar adeg pan fo llawer o rannau o'r ES yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw gweithwyr, dylai fod gan bawb ddiddordeb mewn gwella amodau gwaith.

**48.** Mae cynnydd wedi'i wneud mewn rhai sectorau yn yr ES. Mae'r Fforwm Manwerthu a'r Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol yn enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda sectorau'r ES.

**49.** Mae busnesau sy'n cael grantiau cyfalaf yr Is-adran Bwyd yn mabwysiadu'r Contract Economaidd ac yn gwneud ymrwymiadau i'r gweithlu. Mae'r adran dwristiaeth yn defnyddio ei e-fwletin i godi ymwybyddiaeth o Waith Teg, yn fwyaf diweddar trwy gyfeirio at y ddeddfwriaeth newydd ar gadw cildyrnau. Mae'r Cyflog Byw Go Iawn yn cael ei dalu ar draws y sector Gofal, gan gynyddu incwm gweithwyr.

**50.** Mae hawliau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol yn faterion sydd wedi'u cadw yn ôl. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar yr agenda yn y ‘Plan to Make Work Pay’ ac ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, a gafodd ei gyhoeddi ar 10 Hydref. Mae'r Bil yn cynnwys:

a. yr hawl i oriau gwarantedig;

b. gwarantu hawliau sylfaenol yn y gwaith o'r diwrnod cyntaf, gan gynnwys amddiffyniad rhag diswyddo annheg a hawliau i absenoldeb rhiant, mamolaeth a phrofedigaeth;

c. diwygiadau i'r Tâl Salwch Statudol i gael gwared ar y Terfyn Enillion Isaf a'r cyfnod aros

d. cyfyngu ar allu cyflogwyr i ddiswyddo ac ailgyflogi; a

e. cryfhau mesurau i orfodi hawliau'r gweithwyr, drwy greu Asiantaeth Gwaith Teg newydd.

**51.** Gallai'r mesurau hyn gael effaith drawsnewidiol ar waith yn yr ES ac o'u gweithredu, byddant yn gwneud gwaith yn decach, yn fwy diogel ac yn fwy sicr i bawb.

Atodiad 1 – Prosiectau bwyd a ariennir gan dîm yr Economi Sylfaenol

| | Enw'r Sefydliad / Busnes | Disgrifiad o'r Prosiect |
|---|---|---|
| 1. | Castell Howell | Datblygu'r gadwyn cyflenwi llysiau yng Nghymru fel bod mwy o lysiau a thatws o Gymru mewn prydau ysgol yn lle cynnyrch wedi'i fewnforio. Datblygu sglodion Cymreig trwy weithio gyda Puffin Produce. Edrych sut i estyn oes cynnyrch tymhorol |
| 2. | Castell Howell / Celtica Foods | Celtica i ddatblygu amrywiaeth o gynhyrchion bwyd newydd wedi'u gwneud o gig o Gymru sy'n ychwanegu gwerth, i'w cyflenwi i'r sector cyhoeddus (naill ai ar gyfer ysgolion cynradd e.e. peli cig a kofkas Cymreig neu fel cynhwysion ar gyfer prydau aml-ddogn e.e. topings pizza, peli cig mewn saws), cynnal paneli blasu a gweithio gydag arlwywyr yn y sector cyhoeddus. |
| 3. | Synnwyr Bwyd Cymru | Prosiect 'Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion' i dyfu/cyflenwi llysiau organig, cynaliadwy i ysgolion yn hytrach na dibynnu ar fewnforion wedi'u rhewi (parhad o gam 1 'y cynllun peilot Courgettes' ond y cam 2 hwn i gynnwys mwy o lysiau a mwy o awdurdodau lleol). Profi'r cynllun buddsoddi mewn cadwyn gyflenwi gynaliadwy. Trafod â rhanddeiliaid ac ymchwilio iddynt, ar gyfer cynllun peilot yng Ngogledd Cymru ar gyfer Bwyd a Hwyl/Tymor Tyfu 2024. |
| 4. | Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru. | Datblygu 'blwch cymorth' cydweithredol newydd o atebion ymarferol i dyfwyr ar gyfer mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n rhwystro tyfwyr. Hefyd, help i dri busnes i dyfu mwy o gynnyrch garddwriaethol yn lleol ar gyfer cyflenwi'r sector cyhoeddus trwy gyfanwerthwyr a hybiau caffael bwyd; darparu pecynnau amrywiol o gymorth i fusnesau a gwella sgiliau. |
| 5. | Menter Môn | Prosiect ffermio fertigol Tech Tyfu i helpu pum busnes tyfu bach a chanolig, sy'n gobeithio gwerthu microlysiau a llysiau yn uniongyrchol i gyfanwerthwyr ar gyfer contractau caffael cyhoeddus mawr. |
| 6. | Menter Môn / Larder Cymru | Cynyddu'r bwyd o Gymru sydd ar fwydlenni ysgol. Mae Larder Cymru yn gweithio gyda 6 awdurdod lleol yng Nghymru a chyfanwerthwyr / cynhyrchwyr i adolygu fframweithiau cyflenwi bwyd a bwydlenni i ddatblygu bwydlen newydd sy'n ymgorffori mwy o gynnyrch Cymreig a chyflenwyr o Gymru. |
| 7. | Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol | Datblygu canllawiau a pholisi cynllunio atodol er mwyn ei gwneud yn haws trosglwyddo tir cyhoeddus i ofal cymunedol ar gyfer cynhyrchu bwyd lleol ym Mhowys. |

| | | |
|---|---|---|
| 8. | Clwb Cookalong | Dysgu sgiliau coginio i blant ysgol, teuluoedd ac athrawon a sut i siopa ar gyllideb a gwella iechyd meddwl a lles. |
| 9. | Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru. | Dod â mentrau tyfu newydd i'r farchnad drwy drechu rhwystrau a datblygu 'blwch cymorth' cydweithredol newydd o atebion ymarferol, gan wneud y gorau o gyfleoedd drwy hybiau caffael bwyd lleol. |
| 10. | PLANED | Sefydlu dosbarthfa fwyd leol dan arweiniad y gymuned yng nghefn gwlad Sir Gâr, gan sefydlu a hyrwyddo cyflenwyr, cynhyrchwyr a thyfwyr lleol. Peiriannau gwerthu bwyd ffres i'w lleoli mewn ardaloedd lle nad oes siop na lle manwerthu bwyd arall yn y cyffiniau. |
| 11. | Menter a Busnes | Cynllun grant i achredu hylendid bwyd - i dalu costau Micron2 a Salsa ar gyfer BBaChau bwyd o Gymru (mae hyn yn aml yn rhwystr i gwmnïau bwyd bach sydd am werthu i farchnad fwyd y sector cyhoeddus) a helpu i gynyddu nifer y cyflenwyr o Gymru. |



Prosiectau bwyd yr Economi Sylfaenol sydd wedi'u hariannu gan y Tîm Arloesi

| | | |
|---|---|---|
| 12. | Cyngor Caerdydd | Sefydlu Awr Fwyd fel bod pob plentyn yn cael treulio (o leiaf) awr y dydd yn yr ysgol "gyda bwyd"; I rannu prydau maethlon, dysgu am fwyd a dysgu trwy fwyd. Un o'r prif nodau yw cynyddu'r nifer sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim yn yr ysgolion peilot. |
| 13. | Cyngor Sir Gâr | Cydweithredu mewn ffordd holistig i ailgynllunio bwydlen ysgol ar gyfer 'Cenedlaethau'r Dyfodol' fel rhan o'r broses o gyflwyno'r Prydau Ysgol am Ddim, gan ddefnyddio asedau lleol a rhanbarthol ar sail lle a thrwy bartneriaeth. |
| 14. | Cyngor Sir Fynwy | Cegin i ddatblygu prydau ar glud ar gyfer henoed/pobl fregus y rhanbarth – ailddatblygu gwasanaethau i gynnwys bwyd o Gymru, lleihau $CO_2$ a chynnig mwy o ddewis i gwsmeriaid. |
| 15. | Well Fed / Can Cook | 'Loceri bwyd' arloesol, fel rhai Amazon, i fynd i'r afael â thlodi/ansicrwydd bwyd mewn cymunedau ac yn y sector cyhoeddus. Uwchraddio er mwyn gallu cynhyrchu mwy o fwyd; gwella cerbydau; gwella timau datblygu. |
| 16. | Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Sefydlu Rhwydweithiau Arloesi newydd yng Nghaerdydd ac Abertawe i ddatblygu busnesau bach a chanolig lleol a chreu ecosystem ES yn Ne Cymru. Gwella eu medrau er mwyn iddynt allu tendro am gontractau sector cyhoeddus a chryfhau cysylltiadau |

| | | |
|---|---|---|
| | | cydweithredol strategol rhwng BBaChau a rhanddeiliaid rhanbarthol y sector cyhoeddus. |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar bolisi ynglŷn â'r Economi a Masnach

14/11/2024

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am rai o'r gweithgareddau yn ein portffolios ers inni gael ein penodi'n Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ac yn Weinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ym mis Medi 2024. Ers i Ysgrifennydd y Cabinet blaenorol a oedd yn gyfrifol am yr Economi ac Ynni ddod i'w sesiwn graffu gyffredinol ym mis Mehefin, bydd y Pwyllgor yn nodi bod swyddi a thwf gwyrdd bellach yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae cynnwys y papur hwn yn dangos y gwaith sy'n mynd rhagddo gennym i gyflawni'r blaenoriaethau fel y'u hamlinellwyd yn y Genhadaeth Economaidd. Mae hefyd yn manylu ar y ffordd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU sydd newydd ei sefydlu, gan weithio gyda'n gilydd, a thrwy barchu datganoli, er mwyn creu'r amodau sydd eu hangen i gynhyrchu twf economaidd a chyfleoedd cyflogaeth i bawb.

Ar adeg ysgrifennu, rydym yn aros i Lywodraeth y DU gyhoeddi Cyllideb yr Hydref. Felly, mae cynnwys y papur hwn wedi cael ei baratoi cyn y digwyddiad hwnnw. Edrychwn ymlaen at drafod y materion hyn a mwy â'r Pwyllgor ym mis Tachwedd.

# Cynnwys


**1. Blaenoriaethau / Gweithio gyda Llywodraeth y DU .................. 3**

**2. Masnach .................................................................................. 5**

Masnach rhwng Cymru ac Iwerddon ........................................................ 6

**3. Sgiliau .................................................................................. 7**

**4. Cyflogadwyedd .................................................................. 10**

**5. Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg ................................... 12**

**6. Technoleg ............................................................................ 14**

# 1. Blaenoriaethau / Gweithio gyda Llywodraeth y DU

Mae'r bennod hon yn nodi rhai o'r blaenoriaethau cyffredinol sy'n llywio'r cyfeiriad presennol, yn ogystal â meysydd lle rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU.

1. Ym mis Medi, gorffennodd y Prif Weinidog ei hymarfer gwrando drwy amlinellu ei huchelgais i ysgogi cynnydd mewn pedwar maes, gan gynnwys hyrwyddo swyddi a thwf gwyrdd. Ym mhortffolio'r Economi, Ynni a Chynllunio, mae'r Genhadaeth Economaidd: Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach eisoes yn nodi'r pedwar maes blaenoriaeth cenedlaethol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Prif Weinidog:

   - Pontio cyfiawn a ffyniant gwyrdd
   - Platfform i bobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant
   - Partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'r economi bob dydd
   - Buddsoddi ar gyfer twf

2. Mae'r Genhadaeth yn nodi cyfeiriad y llywodraeth hon ac yn disgrifio ei strategaeth economaidd genedlaethol. Ceir hefyd nifer o bolisïau/strategaethau 'bwydo' a thraws-sector, sy'n cyd-fynd â'r Genhadaeth, gan gynnwys y Strategaeth Arloesi, Strategaeth Ddigidol i Gymru, Fframwaith Gweithgynhyrchu Cymru, Cynllun Cyflawni'r Economi Sylfaenol, a Chynllun Gweithredu'r Sector Manwerthu.

3. Mae'r Genhadaeth Economaidd yn cyd-fynd â llawer o'r uchelgeisiau yn y Papur Gwyrdd ar Strategaeth Ddiwydiannol y DU. Bwriadwn weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn sicrhau bod buddiannau economaidd Cymru yn elfen greiddiol o'r strategaeth pan gaiff ei chyhoeddi yn ystod gwanwyn 2025. Nid rhywbeth a wneir i ni yw hyn ond maes lle mae Cymru yn cael ei gwerthfawrogi am ei chyfraniad at dwf y DU.

4. Er bod polisi economaidd wedi'i ddatganoli i Gymru, mae nifer o feysydd lle rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU er budd economi ehangach Cymru. Mae hyn yn cynnwys y Bargeinion Dinesig a Thwf, Porthladdoedd Rhydd, Parthau Buddsoddi, y sector niwclear a'r sector dur a llawer mwy. Rydym yn cyfarfod â Llywodraeth newydd y DU yn rheolaidd er mwyn ysgogi cynnydd o ran y mentrau hyn. Ym Mhort Talbot, gwnaethom weithio gyda Llywodraeth y DU i ryddhau £13.5m o'r Gronfa Cymorth Cyflogaeth i helpu gweithwyr unigol i ddod o hyd i swyddi, dysgu sgiliau newydd ac ennill cymwysterau mewn meysydd lle ceir swyddi gwag yn sgil penderfyniad Tata Steel UK i newid i brosesau gwneud dur gwyrddach. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud ag Wylfa a Thrawsfynydd.

5. Yn y portffolio Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, y strategaethau canlynol sy'n sbarduno'r agenda yn bennaf mewn meysydd megis sgiliau a chyflogadwyedd:

- Y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau (Mawrth 2022), sy'n nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi sgiliau a chyflogadwyedd yn yr economi ar ôl y pandemig.
- Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net (Chwefror 2023).
- Datganiad Polisi Prentisiaethau yng Nghymru (Chwefror 2024).
- Adolygiad o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru: adroddiad (Medi 2023)

6. Fel yn achos ein mentrau economaidd, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU er budd y cyhoedd yng Nghymru. Er enghraifft, o ran y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol er mwyn sicrhau hygrededd cymwysterau a chefnogi'r gallu i'w trosglwyddo a symud sgiliau a chymhwysedd galwedigaethol rhwng rhanbarthau, gwledydd a sectorau. Hefyd, rydym yn ymgysylltu'n agos â chyd-Weinidogion yn Llywodraeth y DU ar rôl Skills England a'r 'ardoll twf a swyddi' newydd.

# 2. Masnach

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r ffordd rydym yn llunio polisïau masnach ac yn helpu cwmnïau o Gymru i werthu eu nwyddau a'u gwasanaethau'n fyd-eang.

7. Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddull Llywodraeth Cymru o Ymdrin â Pholisi Masnach. Mae'r ddogfen yn nodi sut rydym yn ymdrin â pholisi masnach o safbwynt Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

8. Maes trawsddisgyblaethol yw Polisi Masnach. Mae'n gweithio ar draws y llywodraeth i ddeall sut y galllai'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n deillio o Gytundebau Masnach Rydd newydd, a materion polisi masnach ehangach effeithio ar economi a phobl Cymru.

9. Mae swyddogion Polisi Masnach yn gweithio gyda'r Adran Busnes a Masnach yn bennaf, ond maent hefyd yn ymgysylltu ag adrannau gwahanol, megis Defra, ar faterion polisi penodol.

10. Ochr yn ochr â hyn, mae ein Cynllun Gweithredu Allforio i Gymru wedi rhoi rhaglen gynhwysfawr o gymorth i fusnesau yng Nghymru ar waith i'w helpu i ddatblygu eu hallforion, gan gynnwys:

- Ysbrydoli busnesau i allforio, gan gynnwys arddangos allforwyr llwyddiannus o Gymru ('Esiamplau Allforio'); cyflawni rhaglen benodol i annog busnesau allforio newydd a chynaliadwy yng Nghymru; a, chynnal y cynadleddau allforio blynyddol 'Archwilio Allforio Cymru'.

- Meithrin y gallu i allforio, gan gynnwys drwy ein tîm o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol sydd wedi'u lleoli ledled Cymru sy'n rhoi cymorth un i un i fusnesau ynglŷn ag allforion; cyflawni'r fenter Clystyrau Allforio; rhoi cymorth digidol ar-lein ar gyfer allforion drwy 'Hyb Allforio'; yn ogystal â chyflawni rhaglen o weminarau a seminarau yng Nghymru ar allforio er mwyn meithrin gwybodaeth fusnes a'r hyder i allforio.

- Dod o hyd i Gwsmeriaid a Chyrraedd y Farchnad, gan gynnwys cymorth i fusnesau nodi cwsmeriaid tramor newydd; cyflawni rhaglen flynyddol gynhwysfawr o deithiau masnach ac arddangosfeydd i farchnadoedd

allweddol; a chymorth i fusnesau unigol i deithio'n annibynnol dramor i sicrhau busnes allforio newydd.

## Masnach rhwng Cymru ac Iwerddon

11. Mae Iwerddon yn farchnad bwysig i Gymru – dyma ein trydedd gyrchfan allforio fwyaf a'n chweched mewnfuddsoddwr mwyaf.

12. Yn 2023-24, roedd nwyddau a allforiwyd o Gymru i Iwerddon yn werth £2.5 biliwn, sef tua 13 y cant o allforion Cymru, sy'n golygu mai Iwerddon yw trydedd farchnad allforio fwyaf Cymru (ar ôl UDA a'r Almaen).

13. Mae tua 85 o gwmnïau o dan berchnogaeth Wyddelig yng Nghymru, sy'n cyflogi 6,600 o bobl. Iwerddon yw ein chweched mewnfuddsoddwr mwyaf (dros y cyfnod o 2012-13 hyd yma) gyda 38 o fuddsoddiadau, sy'n diogelu neu'n creu 2,600 o swyddi.

14. Cydnabuwyd y gydberthynas hollbwysig hon yng Nghyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon-Cymru yn 2021, sy'n gytundeb dwyochrog 5 mlynedd yn ymrwymo i gydweithredu a dysgu a rennir mewn chwe maes allweddol, gan gynnwys yr economi a masnach. Yn dilyn ymweliad y Prif Weinidog ag Iwerddon ym mis Hydref 2024, ceir ymrwymiad i wneud cyd-ddatganiad ag Iwerddon yn y dyfodol lle y bydd lle amlwg i fasnach a buddsoddi.

# 3. Sgiliau

## Mae'r bennod hon yn crynhoi'r hyn rydym yn ei wneud i sicrhau bod gan Gymru system sgiliau sy'n gweithredu'n dda.

**15.** Dehonglir system sgiliau sy'n gweithredu'n dda yn aml fel un lle mae'r cyflenwad o sgiliau a'r galw am sgiliau yn gweithio'n effeithiol heb fod achosion mawr o ddiffyg cyfatebiaeth. Mae'r elfennau sy'n creu system sgiliau lwyddiannus yn gymhleth, yn yr ystyr bod y cymorth yn dibynnu ar gyngor gyrfaoedd da, bod cyflogwyr yn gallu nodi'r sgiliau y maent yn chwilio amdanynt a bod unigolion sydd â'r sgiliau angenrheidiol ar gael a bod hynny yn cynnwys partneriaid ym mhob rhan o'r system yn gweithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn cwmpasu:

- Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net (Chwefror 2023)
- Datganiad Polisi Prentisiaethau yng Nghymru (Chwefror 2024)
- Adolygiad o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru: adroddiad (Medi 2023)

**16.** Ceir dau borth cenedlaethol i gael cymorth – un i gyflogwyr (Busnes Cymru); un i unigolion (Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio):

- Gyrfa Cymru: mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhoi arweiniad diduedd ar yrfaoedd a chymorth cyflogadwyedd i bobl o bob oedran ledled Cymru.
- Cymru'n Gweithio: sy'n cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru, ac sy'n targedu pobl ifanc 16+ oed sy'n chwilio am waith, hyfforddiant neu sydd am ddatblygu eu gyrfaoedd.

**17.** Mae Cymru'n Gweithio yn rhoi cyngor ac arweiniad gyrfaoedd sy'n benodol i amgylchiadau unigolyn. Mae'n darparu cymorth yng nghanol trefi, lleoliadau allgymorth cymunedol, ar-lein neu dros y ffôn. Mae hefyd yn cydgysylltu â phartneriaid a chyflogwyr ar ran grwpiau cwsmeriaid (dod o hyd i swyddi gwag, cyfleoedd ac ati).

**18.** Mae Cymru'n Gweithio hefyd yn cyhoeddi bwletin swyddi sy'n tynnu sylw at filoedd o swyddi sy'n paru â meini prawf penodol y rhai sy'n chwilio am waith,

boed hynny mewn sector, maes diddordeb neu ardal ddaearyddol benodol, yn ogystal â rhoi trosolwg o swyddi gwag cyffredinol.

19. Rydym yn ymgymryd ag amrywiaeth o waith yn Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r agenda, fel a ganlyn:

20. Rydym yn gweithredu ar sail y DU gyfan o ran y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, er mwyn sicrhau hygrededd cymwysterau a chefnogi'r gallu i'w trosglwyddo a symud sgiliau a chymhwysedd galwedigaethol rhwng rhanbarthau, gwledydd a sectorau.

21. Ym mis Mehefin, gwnaethom gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar Sgiliau Sector Sero Net, a oedd wedi'i anelu at gasglu rhagor o wybodaeth am anghenion sgiliau ar gyfer y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol. Mae'r canlyniad yn helpu i lywio Mapiau Ffordd Sgiliau Sector, rydym yn gobeithio eu cyhoeddi'n ddiweddarach yn ystod yr hydref, ac a fydd yn cynnwys cerrig milltir allweddol, gofynion sgiliau a gofynion y gweithlu ar gyfer pob sector allyriadau, gan gynnwys Cynhyrchu Trydan a Gwres (Adnewyddadwy), Adeiladau Preswyl a Defnydd Tir.

22. Erys cryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ac rydym wedi cynyddu eu cyllideb i £1.16 miliwn y flwyddyn (fel cyfanswm). Gwnaethom hefyd symud i drefniadau Cymorth Grant tair blynedd mwy strategol o 2022, yn unol ag argymhellion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, yn dilyn ei ymchwiliad i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i benderfynu sut y bydd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio gyda Medr o ran pennu blaenoriaethau ar gyfer darparu prentisiaethau ac ar gyfer y sector addysg bellach.

23. Bydd dros £143 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn prentisiaethau o safon y flwyddyn hon. Bydd y buddsoddiad hwn yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i barhau â'r targed o 100,000 o brentisiaethau yn ystod tymor y Senedd. Rydym yn parhau i hyrwyddo a blaenoriaethu prentisiaethau o safon, gan gynnwys y rhai mewn sectorau lefel uwch, mwy technegol, a chefnogi prentisiaethau STEM a pharodrwydd ar gyfer sero net. Rydym hefyd yn ymrwymedig i gynyddu nifer y gradd-brentisiaethau.

24. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ehangu gradd-brentisiaethau. Rydym wedi datblygu darpariaeth newydd ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd ac, o fis Medi 2024, bydd llwybrau gradd-brentisiaethau

adeiladu ar gael ym maes rheoli adeiladu, peirianneg sifil, mesur meintiau a thirfesur. Mae nifer y llwybrau digidol hefyd wedi cael ei ehangu. Cwtogwyd ar unrhyw ehangu pellach gan bwysau cyllidebol.

**25.** Rydym yn ymgysylltu'n agos â chyd-Weinidogion yn Llywodraeth y DU ar rôl Skills England a'r 'ardoll twf a swyddi' newydd.

**26.** Mae Cymru Greadigol wedi bod yn allweddol o ran sicrhau dwy gyfran o gyllid sgiliau gan Sefydliad Ffilmiau Prydain, sy'n werth cyfanswm o £1,050,000. Sicrhawyd £900,000, dros ddwy flynedd, ar gyfer Clwstwr Sgiliau newydd yng Nghymru gan Sefydliad Ffilmiau Prydain; Y Siop Un Stop Bydd hon yn ceisio rhoi cyfeiriadau clir at gyngor, hyfforddiant a chyfleoedd gyrfaoedd i newydd-ddyfodiaid a'r rhai yng nghanol eu gyrfaoedd fel ei gilydd, gyda ffocws ar ddatblygu gweithlu sector mwy cynhwysol a chynrychioliadol yn y diwydiannau sgrin.

# 4. Cyflogadwyedd

## Mae'r bennod hon yn nodi sut rydym yn cefnogi cyflogadwyedd ledled Cymru.

**27.** Mae Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau (y "Cynllun") yn parhau i gynnig dull cydweithredol a chydgysylltiedig i Lywodraeth Cymru gefnogi cyflogadwyedd a sgiliau yng Nghymru.

**28.** Mae'r Cynllun (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022) yn nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi sgiliau a chyflogadwyedd yn yr economi ar ôl y pandemig ac mae'n cynnwys 50 o ymrwymiadau sy'n rhychwantu nifer o bortffolios Gweinidogol. Mae'r Cynllun yn nodi pum blaenoriaeth i helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial – y Warant i Bobl Ifanc; mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd; Gwaith Teg i Bawb; Gwaith Iach, Cymru Iach; a Dysgu am Oes.

**29.** Un o ymrwymiadau polisi allweddol y Cynllun yw dwyn ynghyd raglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru i gyflwyno un model gweithredu newydd er mwyn sicrhau mwy o hyblygrwydd ac effeithlonrwydd. Bydd yn cynnwys ReAct+, Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol a Twf Swyddi Cymru+.

- Rhaglen grant yw ReAct+, a'i nod yw helpu pobl sydd wedi colli eu swyddi i ddod o hyd i gyflogaeth newydd mewn cyn lleied o amser â phosibl, a thrwy hynny eu hatal rhag symud i ddiweithdra hirdymor.
- Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn rhoi cymorth cyflogadwyedd dwys i bobl sy'n wynebu'r anfantais fwyaf yn y farchnad lafur o nifer o leoliadau cymunedol. Caiff y rhaglen ei darparu drwy gyllid grant i bob awdurdod lleol yng Nghymru.
- Prif raglen y Warant i Bobl Ifanc yw Twf Swyddi Cymru+ ac mae wedi bod yn gweithredu ers 1 Ebrill 2022. Mae'n gwasanaethu rhai o'r bobl ifanc sy'n wynebu'r anfantais fwyaf yn ein cymdeithas.

**30.** Wrth inni ddechrau ein trafodaethau â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ddatganoli, byddwn yn dwyn ynghyd y Model Gweithredu Sengl yn sgil datganoli cyllid cymorth cyflogaeth nad yw'n rhan o'r Ganolfan Byd Gwaith yn un rhaglen. Mae swyddogion wrthi'n gweithio ar y rhaglen ehangach newydd a chaiff manylion pellach eu rhoi i'r Senedd ac Aelodau'r Pwyllgor maes o law.

31. Mae Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru yn darparu rhaglen o weithgareddau sy'n gysylltiedig â Chystadlaethau Sgiliau sy'n codi ymwybyddiaeth o addysg a hyfforddiant galwedigaethol a llwybrau gyrfaoedd.

# 5. Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg

Mae'r bennod hon yn nodi'r ffordd rydym yn hyrwyddo gwaith teg ac yn cefnogi hawliau gweithwyr. Mae hefyd yn amlinellu pam mae partneriaeth gymdeithasol yn bwysig a sut rydym yn hyrwyddo'r gwerthoedd hyn ledled Cymru.

**32.** Cyflwynodd Llywodraeth y DU ei Bil Hawliau Cyflogaeth ar gyfer darlleniad cyntaf ar 10 Hydref. Mae'r Bil yn cwmpasu nifer o faterion, gan gynnwys:

- hawl i oriau wedi'u gwarantu.
- gwarantu hawliau sylfaenol yn y gwaith o'r diwrnod cyntaf, gan gynnwys diogelwch rhag diswyddo annheg a hawliau i absenoldeb rhiant, absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb oherwydd profedigaeth.
- diwygiadau i'r Tâl Salwch Statudol er mwyn cael gwared ar y Terfyn Enillion Is a'r cyfnod aros.
- cyfyngiadau ar allu cyflogwyr i ddefnyddio trefniadau diswyddo ac ailbenodi.
- gwella hawliau undebau llafur.
- cryfhau'r trefniadau i orfodi hawliau gweithwyr yn effeithiol, drwy greu Asiantaeth Gwaith Teg newydd.

**33.** Rydym yn gefnogol iawn i'r agenda a nodwyd yn y ddogfen 'Gwneud i Waith Dalu' ac yn y Bil Hawliau Cyflogaeth. Mae'r mesurau hyn yn cwmpasu dyletswyddau a hawliau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol ar lawer o feysydd rydym wedi bod yn eu hyrwyddo yng Nghymru drwy ein pwerau datganoledig mwy cyfyngedig.

**34.** Mae'r ddwy lywodraeth o'r un farn – bydd y mesurau hyn yn uwchraddio hawliau gweithwyr ac yn mynd i'r afael ag amodau gwaith a byddant yn fuddiol i fusnesau a gweithwyr fel ei gilydd.

**35.** Rydym hefyd yn hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac yn annog cyflogwyr i'w fabwysiadu a'i achredu fel ffordd o gyfrannu at fynd i'r afael â chyflog isel,

gwella cyfraddau recriwtio a chadw, a sicrhau buddiannau i'r sefydliadau hynny sy'n ei dalu o ran eu henw da. Rydym yn glir bod talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn fuddiol i gyflogwyr yn ogystal â gweithwyr.

**36.** Rydym wedi cyflawni'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ym maes gofal cymdeithasol. Hefyd, drwy ysgogwyr fel ein Contract Economaidd a'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, rydym yn annog y rhai rydym yn gweithio gyda nhw i ystyried buddiannau'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

**37.** Daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gyfraith gwlad ym mis Mai 2023, sy'n cyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i roi statws statudol i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

**38.** Mae'r ddeddfwriaeth yn golygu y bydd gweithwyr yn cael mwy o gyfle i lunio polisïau, a blaenoriaethau strategol ar lefel llywodraeth genedlaethol ac mewn rhai sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Mae'n creu dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus i ymgymryd â chaffael cymdeithasol gyfrifol fel y bydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i gefnogi datblygu cynaliadwy a gwella llesiant.

**39.** Er mwyn codi ymwybyddiaeth, mae digwyddiadau ymgysylltu wedi cael eu cynnal gyda phartneriaid cymdeithasol ledled Cymru. Mae'r rhain wedi cynnwys cyfarfodydd bord gron, pecyn hyfforddiant ar-lein a chynadleddau ar thema partneriaeth gymdeithasol.

# 6. Technoleg

Mae'r bennod hon yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial, lled-ddargludyddion a seiber.

40. Ystyr deallusrwydd artiffisial yw gwyddor a pheirianneg sy'n creu peiriannau a systemau sy'n gallu cyflawni tasgu sydd fel arfer yn gofyn am ddeallusrwydd dynol. Mae'n chwyldroi'r ffordd y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn dysgu ac felly mae angen ei ystyried ym mhob un o'r portffolios Gweinidogol a hefyd fel thema drawsbynciol.

41. Rydym yn cydnabod y buddiannau sylweddol i gynhyrchiant economaidd ac effeithlonrwydd yn y sector cyhoeddus y gellid eu sicrhau drwy fabwysiadu technolegau deallusrwydd artiffisial. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni gofio risgiau ac effeithiau deallusrwydd artiffisial ar y gweithlu, hawliau dynol a chymdeithas yn fwy cyffredinol.

42. Yn Llywodraeth Cymru, mae gweithgor traws-sefydliad ar ddeallusrwydd artiffisial wrthi'n cael ei sefydlu i ymgorffori syniadau ynglŷn â deallusrwydd artiffisial mewn timau polisi a chyflawni yn well. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, sydd wedi sefydlu grŵp llywio traws-sector ar ddeallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio er mwyn rhannu gwybodaeth ac arferion da ar y defnydd diogel a moesegol o ddeallusrwydd artiffisial yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

43. Un maes arall sy'n un o dechnolegau ysgogol yr 21ain ganrif, yn ôl y gred gyffredin, yw lled-ddargludyddion. Ochr yn ochr â'r byd academaidd, diwydiant, Llywodraeth y DU a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi twf y Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yng Nghymru, yn ardal Casnewydd yn bennaf, ers dros ddegawd.

44. Gydag arbenigedd o ymchwil hyd at gynhyrchu, mae'r Clwstwr wedi ennill bri yn fyd-eang. Mae'r sector yn flaenoriaeth i'n hymdrechion ym maes Masnach a Buddsoddi, a threfnwyd stondin yng nghynhadledd India ar led-ddargludyddion am y tro cyntaf yn ystod yr hydref, yn ychwanegol at ein presenoldeb mewn llawer o ddigwyddiadau byd-eang eraill.

45. Mae'r ffocws rhyngwladol hwn yn ein galluogi i gyfrannu ein harbenigedd at rai o'r heriau byd-eang mawr. Er enghraifft, mae'r seiberfygythiad byd-eang

yn parhau i gynyddu, sy'n risg barhaus i'n gwasanaethau cyhoeddus, eu cadwyn gyflenwi a'r economi ehangach. Nod ein Cynllun Gweithredu Seiber yw sicrhau bod Cymru yn ffynnu drwy seibergadernid, talent ac arloesedd. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, rydym yn cydweithio â sectorau a byd diwydiant, y byd academaidd, gwasanaethau cyhoeddus a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

**46.** Mae'r Hyb Arloesedd Seiber, sy'n hynod bwysig i Gymru, yn cefnogi hyn. Mae'r Hyb yn cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'n manteisio ar yr arbenigedd a gynigir gan bartneriaid megis Airbus, Sefydliad Alacrity, CGI, Thales, Tramshed Tech a Phrifysgol De Cymru. Mae'n fuddsoddiad strategol allweddol i Lywodraeth Cymru ac mae codi ei broffil, lefelau ymgysylltu â byd diwydiant a'r gallu i ddenu buddsoddi ecwiti preifat yn allweddol i'w lwyddiant yn yr hirdymor. Mae Cymru eisoes wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol ym maes seiber ac mae'r Cynllun Gweithredu Seiber yn nodi cyfeiriad strategol cyson a chydlynol ar gyfer y dyfodol.

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon